# Gwerthuso Prosiectau Peilot Ymyriad Cynnar gyda Rhieni

**Chwefror 2010**

**Adroddiad terfynol a gyflwynwyd i Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Brifysgol Abertawe, Prifysgol Salford ac ARCS (UK) Limited**

**Sam Wright, Paul Gray, Emma Watts, Lyndsay McAteer, Neal Hazel, Mark Liddle a Kevin Haines**

SWANSEA UNIVERSITY
PRIFYSGOL ABERTAWE
www.swansea.ac.uk

# CRYNODEB WEITHREDOL

## CYFLWYNIAD

Nod y rhaglen Beilot Ymyriad Cynnar gyda Rhieni (PYCRh) oedd:

- Lleihau effaith camddefnyddio sylweddau ar y gallu i fagu plant;
- Galluogi oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau i ddatblygu sgiliau cadarnhaol ac effeithiol o ran magu plant; ac
- Annog rhieni i fagu mwy o annibyniaeth.

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bum prosiect peilot ym mis Ebrill 2007 ar draws pum lleoliad ledled Cymru:

- Barnardo's Cymru, Sir y Fflint;
- Jigsaw, GCADM[1], Casnewydd;
- Drugaid, Merthyr Tudful;
- Drugaid, Blaenau Gwent; a
- Prosiect Ymyriad Cynnar gyda Rhieni, Penybont.

## DYLUNIO'R GWERTHUSO

Ym mis Chwefror 2008, comisiynwyd gwerthusiad i archwilio effeithiolrwydd ystod o 'fodelau' o weithio a ddefnyddiwyd yn y prosiectau peilot. Dyma'i amcanion:

- Adnabod y modelau mwyaf effeithiol[2] i gyflwyno gwasanaethau ataliol cynnar i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Adnabod y rhagamodau i weithredu'r modelau yn effeithiol, a'r cyd-destunau lle mae modelau penodol yn briodol.
- Asesu effaith y prosiectau yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys cysylltiadau i sefydliadau eraill, a'u heffaith arnynt.
- Ychwanegu at gorff gwybodaeth ar werthuso cynlluniau cymunedol yn effeithiol, a gwneud argymhellion parthed gwerthuso prosiectau o'r fath yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Yn gryno, dyma oedd y gwaith a wnaed i'r gwerthusiad:

- Adolygiad o lenyddiaeth ymchwil a pholisi;
- Dadansoddiad o ddogfennau a data lleol;
- 22 cyfweliad dwys gyda staff y prosiect;
- 20 cyfweliad gyda chynrychiolwyr cyrff allanol ac arolwg arlein;
- Cyfweliadau dwys gyda 28 rhiant a 10 o blant;
- Adolygiad o ffeiliau achos[3]; a
- Cyfweliadau gydag arbenigwyr cenedlaethol.

---

[1] Cyngor Gwent ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
[2] Yn yr achos hwn, deellir y 'mwyaf effeithiol' fel ymddygiad priodol wrth fagu plant, ac yn anad dim, deilliannau cadarnhaol i blant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.
[3] Cwblhawyd ar gyfer pob cleient newydd Awst - Hydref 2008: 49 ffeil achos.

## DYLUNIO PROSIECT PYCRh A PHATRYMAU GWAITH

Cafodd y prosiectau peilot PYCRh oll eu cynllunio a'u datblygu mewn ffyrdd gwahanol. Mae modd crynhoi elfennau allweddol cynllun cychwynnol y prosiect fel a ganlyn:

| | **Drugaid** | **Jigsaw, Casnewydd** | **Families Matter, Sir y Fflint** | **PYCRh Penybont** |
|---|---|---|---|---|
| 'Lleoliad' Camddefnyddio Sylweddau | ✔ | ✔ | | |
| 'Lleoliad' Gwasanaethau Plant | | | ✔ | ✔ |
| Gweithio gyda rhieni yn unig | ✔ | ✔ | | |
| Gweithio gyda'r teulu cyfan | | | ✔ | ✔ |
| Ymyriad cyfyngedig gan amser | | | ✔ | ✔ |
| Ymwneud penagored | ✔ | ✔ | | |
| Canoli yn syth ar fagu plant | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Canolbwynt cychwynnol ar gamddefnyddio sylweddau | ✔ | | ✔ | ✔ |
| Cyflwyno unigol | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cynigiwyd gwaith grŵp | ✔ | ✔ | ✔ | |

Yr oedd y prosiectau PYCRh yn wir gynlluniau 'peilot' - canfu staff fod rhaglenni generaidd magu plant yn anaddas i'w grŵp cleient hwy a rhaid fu iddynt addasu'r agweddau er mwyn ymwneud â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ac ateb eu hanghenion am gefnogaeth.

Yr oedd y timau PYCRh ar eu hennill o staff ymrwymedig gyda sgiliau cyfathrebu a symbylu cryf oedd yn medru ymwned â grŵp cleient heriol dros ben. Yr oedd sensitifrwydd y gwaith hwn yn galw am lunio perthynas o ymddiriedaeth rhwng cleient a gweithiwr oedd yn cyfyngu ar y cyfle am waith grŵp. Trwy deilwrio cefnogaeth i anghenion a galluoedd y cleientiaid yn gyson, llwyddod y prosiectau i adnabod symbyliad y cleientiaid i newid, ac adeiladu ar hynny a'i gynnal.

## CANFYDDIADAU PROSES

Mae'r gwahaniaeth yn nyluniad y prosiectau yn amlwg yn y patrymau gwaith amrywiol a gyflwynwyd dros amser gan bob prosiect. Mae modd crynhoi'r amrywiaeth mewn cyfeirio, ymwneud cleientiaid, 'dos' yr ymyriad a chyfraddau cwblhau fel a ganlyn:

| | **Drugaid**[4] | **Jigsaw**[5] | **Families Matter**[6] | **PYCRh Penybont**[7] |
|---|---|---|---|---|
| *Cyfeiriadau* | 117 oedolyn[8] | 171 a gymerodd ran mewn gweithdy; 146–199 cleient[9] | 59 oedolyn ac 81 plentyn | 25 rhiant a 38 plentyn[10] |
| *Gwybodaeth cyfeirio allweddol* | 50% Hunan[11] 9% Gwasanaethau Cymdeithasol | 19% Hunan 20% Gwasanaethau Cymdeithasol | 24% Hunan 29% Gwasanaethau Cymdeithasol | WGCADM 6 On Track 5 Hunan 1 |
| *Manteisiodd ar y gwasanaeth* | 68 cleient (58%) | 105 - 143 cleient (72%) | 59 oedolyn a 81 plentyn (100%) | 25 rhiant a 38 plentyn (100%) |
| *% yn derbyn >10 cyswllt*[12] | 3% | Dim data i gymharu | 97% | Dim modd cymharu |
| *Nifer cyfartalog cysylltiadau* | 7 cyswllt (amred: 1-84) | 5 cyswllt (amred: 1-24) | Heb gofnodi | 21 awr (1-44 awr) |
| *Cwblhau* | 2%[13] | 15% | 75% oedolion 81% plant | 100% |

Mae modd crynhoi canfyddiadau proses pob prosiect unigol fel a ganlyn :

***Drugaid***

- Cyflwyno lleihau camddefnyddio sylweddau a niwed yn bennaf, gan ymdrin â magu plant yn unig os oedd y cleient yn hapus i weithio ar hyn.
- Cyflwyno gwasanaeth i gyfran fawr o gleientiaid oedd eisoes yn derbyn triniaeth (cyfeiriadau mewnol o Drugaid).
- Yr oedd gweithwyr y prosiectau yn teimlo mai canlyniad y model cyflwyno hwn oedd nad ymdriniwyd ddigon â magu plant.

***Jigsaw***

- Er mwyn cael y mwyaf o ymwneud, cyflwynwyd amrywiaeth o ymyriadau: sesiynau unigol, gwaith grŵp, cyrsiau, gweithdai a chefnogaeth teliffon.

---

[4] Gorffennaf 2007 – Mehefin 2009
[5] Hydref 2007 – Awst 2009
[6] Gorffennaf 2007 – Gorffennaf 2009
[7] Tachwedd 2007 – Gorffennaf 2008.
[8] Ym mhrosiect Merthyr Tudful yr oedd y mwyafrif llethol (n=91; 78%). Dim ond 64% o'r grŵp hwn oedd yn disgrifio eu hunain fel rhieni.
[9] Mabwysiadodd prosiect Jigsaw system newydd o gadw cofnodion cleientiaid hanner ffordd trwy'r prosiect ac nid oes modd dweud a yw'r gronfa ddata gyntaf yn dyblygu cofnodion unigolion sydd hefyd yn yr ail gronfa ddata (h.y., a ddychwelodd rhai cleientiaid presennol at y prosiect). Os dychwelodd yr holl gleientiaid cychwynnol at y prosiect, yna gweithiodd Jigsaw gyda 146 unigolyn; os na ddychwelodd yr un, yna gweithiodd gyda 199.
[10] 20 teulu.
[11] Cleientiaid Drugaid
[12] Canran o'r rhai a gyfeiriwyd i'r prosiectau.
[13] Cofnodwyd 2% o gleientiaid fel rhai wedi cwblhau'r ymyriad, a gwnaeth 16% arall 'gytuno i derfynu'r gefnogaeth'.

- Yr oedd ehangder y 'gynulleidfa' yn gwneud y mwyaf o botensial y prosiect i wneud gwaith ataliol, ond golygodd hefyd nad oedd yr ymyriadau wedi eu targedu gymaint ar gamddefnyddwyr sylweddau oedd yn peri problem ar y pryd.
- Llwyddwyd i osod trothwy isel am fynediad at y gwasanaethau. Buasai rheolwr y prosiect wedi hoffi gallu gwneud gwaith dilynol gyda'r rhai na fu'n mynychu.

### *Families Matter*

- Roedd y prosiect PYCRh hw yn cynnig amrywiaeth o ymyriadau, gan gynwys: ThYG, technegau symbylu a chefnogaeth unswydd i fagu plant – yn cael ei gyflwyno yn bennaf yn unigol, ond gyda pheth gwaith grŵp.
- Yr oedd gan y prosiect 'ganolbwynt teulu cyfan', gan ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i blant. I ddechrau, derbyniodd y prosiect gyfeiriadau achos cymhleth (yn bennaf gan y Gwasanaethau Cymdeithasol) ond mireiniodd y grŵp targed yn nes ymlaen gan beidio â chynnwys 'teuluoedd anhrefnus'.
- Dywedodd rheolwr y prosiect fod mwy o gleientiaid posibl yn y gymuned fyddai'n elwa o wasanaeth PYCRh.

### *PYCRh Penybont*

- Fel Families Matter, seiliwyd PYCRh Penybont ar fodel Dewis 2[14] gan ddatblygu cefnogaeth holistaidd i wella gweithredu'r teuluoedd, hunan-barch, hyder a chyfathrebu. Darparwyd therapi oedd yn canoli ar y teulu a chefnogaeth uniongyrchol i blant.
- Canfu'r prosiect fod ei feini prawf targedu cychwynnol – nad oedd yn cynnwys cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol - yn rhy gul. Nid oedd ei wasanaeth galw heibio yn llwyddiannus.
- Dywedwyd bod y prosiect wedi gweithio'n dda gyda rhai cleientiaid nad oedd i ddechrau wedi cydnabod angen am gefnogaeth. Dywedodd rheolwr y prosiect fod mwy o gleientiaid posibl yn y gymuned fyddai'n elwa o wasanaeth PYCRh.

## CANFYDDIADAU EFFAITH

Dywedodd staff prosiect PYCRh fod gweithredu'r rhaglen wedi helpu i godi ymwybyddiaeth strategol a gweithredol o'r *'agenda niwed cudd'*; gwell gwybodaeth gan ymarferwyr o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd a chafodd effaith gadarnhaol hefyd ar waith y Gwasanaethau Cymdeithasol. O ran y gwahanol effeithiau a gafodd pob model o weithio:

### *Model 1: dwysedd isel, canolbwyntio yn bennaf ar gamddefnyddio sylweddau (Drugaid)*

Tra rhoddodd model 1 gyfle i gleientiaid wella eu sgiliau cyfathrebu gyda'u plant, nid oedd fawr o ganolbwynt uniongyrchol ar weithredu neu redeg y teulu. Heb ddim cyswllt gan y prosiect â'r plant, nid oedd tystiolaeth o unrhyw effaith gadarnhaol ar les plant (yn wir, cyfeiriodd y prosiect rai plant at y Gwasanaethau

[14] Gwasanaeth yw Dewis 2 sy'n gweithredu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ac yn gweithio gyda theuluoedd â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau y mae eu plant mewn perygl niwed. Mae'n ceisio lleihau'r angen i blant fynd i ofal cyhoeddus.

Cymdeithasol). Yr oedd yr agwedd hon o roi triniaeth yn talu'r mwyaf o sylw i gamddefnyddio sylweddau – ond nid oedd yn cofnodi data i roi tystiolaeth o unrhyw effaith ar gamddefnydd y cleientiaid o alcohol/cyffuriau.

***Model 2: Dwysedd isel, prif ganolbwynt ar fagu plant (Jigsaw)***
Yr oedd Model 2 hefyd yn helpu cleientiaid i wella cyfathrebu rhwng plant a rheini a chryfhau eu perthynas. Mewn nifer fechan o achosion, gwnaed cynnydd tuag at aduno rhai teuluoedd y cymerwyd eu plant i ofal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oedd y prosiect yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac nid oedd tystiolaeth felly o effaith ei waith ar les plant. Yn bennaf, ymdriniwyd â chamddefnyddio sylweddau gan y rhieni mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau lleol.

***Modelau 3 a 4: Dwysedd canolig ac uchel, canolbwynt teuol (Families Matter a PYCRh Penybont)***
Yr oedd datblygu gweithredu'r teulu yn flaenoriaeth i'r ddau fodel, a chadwyd llawer o deuluoedd gyda'i gilydd o ganlyniad i'w gwaith. Yr oed dy modelau hyn yn rhoi pwysials mawr ar fagu agweddau cadarnhaol yn y rhieni, eu galluoedd, cysondeb disgyblaeth a lleihau posibilrwydd gwrthdaro. Am i'r modelau hyn weithio ar lefel ddwys iawn, yr oedd modd iddynt ymdrin â phroblemau dwfn a chronig teuluoedd. Gwelwyd gwelliant mewn llawer agwedd o fywyd y teulu o ran: sgiliau ymdopi'r rhieni, ymwneud â phlant a threfn/strwythurau'r teulu.

Dywedodd plant oedd yn gweithio gyda'r prosiectau ac a gyfwelwyd am y gwerthuso sut y bu i'r gefnogaeth strwythuredig gael effaith gadarnhaol ar 'normalrwydd' y teulu a'u teimladau o gynhwysiant cymdeithasol. Gyda mwy o hyder, a llai o gyfrifoldebau gofal, medrodd y plant ganoli ar eu buddiannau a'u datblygiad eu hunain. Am fod y teulu'n fwy sefydlog, yr oedd y plant yn fwy pendant, yn fyw o ran o gymdeithas ac ysgol – a chafwyd llai o fwlio. Yr oedd y prosiectau hefyd mewn sefyllfa dda i roi cyngor a gwybodaeth ar gamddefnyddio sylweddau i bobl ifanc oedd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar faterion magu plant, rhoes y ddau fodel hyn o weithio sylw uniongyrchol ar gamddefnyddio sylweddau gan y rhieni. Gan weithio fel arfer mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau, yr oedd y modelau hyn yn ategu gwasanaethau nodweddiadol trwy roi cefnogaeth i'r teulu cyfan yn ystod (1) lleihad/ymwatal y rhieni rhag camddefnyddio sylweddau; a (2) paratoi am ddadwenwyno/adsefydlu. Am fod y modelau hyn mor ddwys, gallodd staff y prosiect fod yn bendant o ran rheoli achosion, gan gydgordio cyfraniadau gan wahanol asiantaethau oedd yn dwyn y cleient i mewn fwy i wasanaethau eraill, gyda mwy o effaith.

## CASGLIADAU

### *Effeithiolrwydd rhaglen PYCRh*
Mae agweddau holistaidd at gamddefnyddio sylweddau gan rieni yn hollbwysig – gan ymgorffori ymyriadau o ran camddefnyddio sylweddau a hefyd: cymorth

ymarferol, integreiddio cymdeithasol, cyfathrebu y tu mewn i'r teulu, strwythur/sefydlogwydd bywyd teuluol ac agweddau rhieni tuag at blant.

### Amodau gweithredu llwyddiannus

Mae seilwaith gwasanaeth sydd yno eisoes, llwybrau cyfeirio a threfniadau gweithio ar y cyd oll yn moldio datblygiad gwasanaethau newydd. I weithredu prosiectau newydd yn llwyddiannus, mae angen i adnoddau fod ar gael i'r canlynol (1) darparu gwasanaeth yn uniongyrchol (2) datblygu gweithio rhyng-asiantaethol a rhannu gwybodaeth; a (3) rhwydweithio strategol. Efallai y bydd angen gweithredu i wrthweithio unrhyw gyfyngiadau mynd at wasanaethau a osodir gan fframweithiau/llwybrau cyfeirio sy'n bod eisoes.

### Gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd y model

- I gyflwyno cefnogaeth magu plant i gamddefnyddwyr sylweddau mae angen ffyrdd newydd o weithio am nad yw rhaglenni generaidd magu plant yn addas i'r grŵp cleient hwn. Nid yn unig y mae angen hyfforddiant dwys i staff y prosiect, ond mae angen hefyd codi ymwybyddiaeth cyfeirwyr a rhanddeiliaid eraill i wella dealltwriaeth gyffredinol o *niwed cudd.*
- Mae cefnogaeth ddwys yn hwyluso gwelliant mewn bywyd teuluol ar lawer agwedd ac yn rhoi cyfle i adnabod ac adeiladu ar symbyliad cleientiaid i newid. Nid yw ymyriadau cyfyngedig eu hamseriad yn addas i rai o'r grŵp cleient hwn sydd angen cefnogaeth yn y tymor hir (ac o bosibl yn barhaol).
- Mae canoli ar wella cyfathrebu rhwng rhieni a phlant a helpu rhieni i ail-sefydlu ffiniau yn lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwrthdaro teuluol ac emosiynau negyddol.
- Mae angen gwaith uniongyrchol gyda phlant i fesur gwaelodlin y sefyllfa o safbwynt lles plant ac effaith ymyriadau (a all gynnwys mwy o hyder, gwell presenoldeb yn yr ysgol, gwell cynhwysiant cymdeithasol a llai o fwlio).
- Gall lleoli gwasanaethau y tu mewn i wasanaethau generaidd plant/magu plant annog ystod eang o rieni i sylweddoli effaith camddefnyddio sylweddau ar eu plant a gwella gweithredu'r teulu. Mae gorgyffwrdd rhwng gwaith Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau magu plant ymyriad cynnar yn rhoi llawer o gyfle am gefnogaeth i fagu plant seiliedig ar y gymuned.

### Model cyflwyno posibl

Yn groes i gefnogaeth generaidd ar fagu plant, rhaid i ymyriadau sy'n ceisio gwella lles plant camddefnyddwyr sylweddau ystyried lefel y camddefnyddio sylweddau gan y rhieni fel ffactor allweddol i bennu'r math o gefnogaeth a gynigir. Lle bo rhieni yn gamddefnyddwyr sylweddau anhrefnus, rhaid asesu ac ymateb i anghenion cefnogaeth pob plentyn unigol. Gellir crynhoi hyn fel a ganlyn:

| **Pwynt mynediad i'r prosiect (pennir gan gamddefnyddio sylweddau gan y rhieni)** | **Math o ymyriad** | | |
|---|---|---|---|
| | **Ymyriad gyda rhieni yn unig** | **Ymyriad gyda'r teulu cyfan** | **Ymyriad gyda'r plant yn unig** |
| 1.Camddefnyddio sylweddau lefel isel/datblygiad cynnar | Codi ymwybyddiaeth, cefnogaeth i redeg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y teulu a lleihau niwed | |
| 2. Camddefnyddio sylweddau anhrefnus/dibynnol | Ymyriadau camddefnyddio sylweddau dwys | Rheoli argyfwng | Cefnogaeth ar wahân (gofalwr) i blant |
| 3. Lleihau/sefydlogi camddefnyddio sylweddau | | Cefnogaeth holistaidd yn canoli ar redeg y teulu | |
| 4. Ymwrthod | | Cefnogaeth gyson i ymwrthod | |

**OBLYGIADAU POLISI**

Yr oedd rhaglen beilot PYCRh yn rhoi gwasanaethau gwerthfawr i nifer fawr o deuluoedd oedd angen cefnogaeth ddwys. Fodd bynnag, er bod anghenion lles plant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau yn sylweddol, hyd yma, ni lwyddodd yr un o'r prosiectau PYCRh i gael cyllid y tu hwnt i Hydref 2009. Nid oedd ymwneud Partneriaethau Diogelwch Cymunedol na Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yng nghyfnod ysgrifennu bidiau y cynlluniau peilot PYCRh yn ddigon i ddenu mwy o arian cyson. Efallai mai doeth fuasai cynnal mwy o adolygiadau dwysach o alluoedd strategol/cyflwno gwasanaethau lleol i gefnogi cynlluniau peilot cyn eu comisiynu yn y dyfodol.

Cododd y gwerthusiad y materion canlynol o ran gweithredu gwasanaethau i ymdrin â *niwed cudd:*

- Mae bwlch gwybodaeth enfawr o ran lles plant mewn teuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau ac angen mawr am hyfforddiant camddefnyddio sylweddau i ymdrin yn benodol â'r agenda *Niwed Cudd*.

- Mae angen clir am ganllawiau a chefnogaeth ar gasglu data.

- Lleiafrif o gamddefnyddwyr sylweddau sy'n cael eu denu gan wasanaethau triniaeth ac nid yw hyn yn llwybr digonol i gyflwyno agenda *Niwed Cudd* .

- Gall cefnogaeth holistaidd wedi ei deilwrio i deuluoedd gael canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd mewn cyfnod gweddol fyr – ond fel arfer, mae problemau yn lluosog a chronig, ac angen ymyriad yn y tymor canol a hir.

- Does dim cefnogaeth arbenigol tebyg i deuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau yn y pum lle - heb PYCRh, cyfeirir teuluoedd at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Mae perygl i gefnogaeth magu plant nad yw'n gweithio'n uniongyrchol â phlant barhau i anwybyddu anghenion y plant am gefnogaeth.

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **2** |
| **2.** | **Dylunio’r Ymchwil** | **2** |
| **3.** | **Llenyddiaeth Gefndir** | **3** |
| **4.** | **Datblygu Peilot PYCRh** | **4** |
| **5.** | **Modelau Ymyriad** | **11** |
| **6.** | **Canfyddiadau Proses** | **13** |
| **7.** | **Canfyddiadau Effaith** | **17** |
| **8.** | **Casgliadau ac Oblygiadau Polisi** | **33** |
| | **Cyfeiriadau** | **38** |


## Diolchiadau


Carai’r tîm ymchwil ddiolch i holl staff prosiect PYCRh am eu hamser a’u cymorth yn ystod y gwerthuso hwn.

# 1. Cyflwyniad

Fel ran o amcan polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o leihau'r niwed a achosir i blant gan rieni sy'n camddefnyddio sylweddau, yn Ebrill 2007, comisiynwyd pum rhaglen beilot. Ffurfiodd y cynlluniau peilot dwy-flynedd hyn y rhaglen Peilot Ymyriad Cynnar gyda Rhieni (PYCRh), ac fe'u lleolwyd mewn pum man ledled Cymru:

- Drugaid, Merthyr Tudful;
- Barnardo's Cymru, Sir y Fflint;
- Cyngor Gwent ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau (Jigsaw), Casnewydd;
- Drugaid, Blaenau Gwent; a
- Prosiect Ymyriad Cynnar gyda Rhieni, Penybont.

Nod pob prosiect peilot oedd:

- Lleihau effaith camddefnyddio sylweddau ar y gallu i fagu plant;
- Galluogi oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau i ddatblygu sgiliau magu plant cadarnhaol ac effeithiol; ac
- Annog rhieni i ddatblygu mwy o annibyniaeth.

Ym mis Chwefror 2008, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Brifysgol Abertawe, Prifysgol Salford, ac ARCS (UK) Limited i gynnal gwerthusiad o raglen PYCRh. Cynhaliwyd y gwerthusiad yn ystod y cyfnod o fis Chwefror 2008 i Hydref 2009.

# 2. Dylunio a gweithredu'r ymchwil

Yr oedd gwerthusiad PYCRh yn cynnwys rhaglen eang o waith. Yn fyr, canolbwyntiodd y gwerthusiad ar ddwy brif elfen: gwerthusiad proses, yn ymchwilio i ddylunio, cyflwyno gweithredu'r prosiect; a gwerthusiad deilliannau oedd yn canolbwyntio ar ddisgrifio a mesur effaith y prosiect ar rieni a'u plant. Er mwyn cyflwyno'r ddwy elfen o'r gwerthusiad, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau casglu data[15]. Yn eu plith yr oedd:

- Adolygiad o ymchwil a llenyddiaeth bresennol am ymyriadau sy'n canoli ar rieni sy'n defnyddio cyffuriau.
- Dadansoddiad o ddogfennau prosiectau lleol a data sy'n bod eisoes[16].
- Cyfweliadau gyda staff prosiectau a rheolwyr ym mhum safle'r prosiect[17].

---

[15] Dadansoddwyd yr holl ddata meintiol a ddarparwyd i'r tîm ymchwil trwy ddefnyddio SPSS. Dadansoddwyd y data ansoddol trwy ddenfyddio NVIVO.

[16] Rhagwelwyd yn wreiddiol y gallai'r tîm ymchwil fynd at ddata prosiect ynglŷn â mesuriaudau effeithiolrwydd canlyniadau. Fodd bynnag, comisiynwyd y gwerthusiad 10 mis i mewn i gynllun peilot 24 mis PYCRh. Erbyn hynny, yr oedd y prosiectau oll wedi cynllunio a gweithredu eu systemau monitro eu hunain – oedd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddal gwybodaeth am gyfeirio, ymwneud cleientiaid a chyflwyno'r ymyriad. Mewn rhai safleoedd, er i'r tîm ymchwil gynllunio cronfa ddata unswydd i wella arferion cofnodi data'r prosiectau, naill ai ni roddwyd y data i mewn, neu nid oedd yn ddigon cyflsawn i gefnogi dadansoddiad deilliannau meintiol cadarn. Felly, er bod cronfeydd data'r prosiect yn gallu bod yn sylfaen o wybodaeth i werthuso'r broses, ac eithrio am beth data effaith meintiol allweddol, rhaid oedd i'r gwerthusiad deilliant yn ei hanfod ddibynnu ar dystiolaeth ansoddol.

[17] Nifer staff a gyfwelwyd ym mhob prosiect: Penybont=8 (1 yn ddilyniant); Sir y Fflint=4; Casnewydd=5 (1 yn ddilyniant); Merthyr Tudful=3 (1 yn ddilyniant); a Blaenau Gwent=2. Cyfanswm nifer staff prosiect a gyfwelwyd=22.

- Cyfweliadau gyda chynrychiolwyr amrywiaeth eang o asiantaethau allanol (oedd naill ai'n cyfeirio'n uniongyrchol i'r prosiectau a/neu oedd â gwybodaeth am waith y prosiectau )[18].
- Arolwg gwe[19] i gynrychiolwyr yr asiantaethau allanol nad oedd modd eu cyfweld[20].
- Cyfweliadau gyda sampl o rieni a phlant[21] ar draws safleoedd y prosiect[22].
- Adolygiad o sampl pwrpasol o ffeiliau achos[23].
- Cyfweliadau gydag arbenigwyr cenedlaethol a rhanbarthol yn y maes hwn.

# 3. Llenyddiaeth Gefndir[24]

Er nad yw defnyddio sylweddau gan rieni yn gyfystyr â diffyg gweithredu teuluoedd (Barnard & McKeganey, 2004), amcangyfrifir yng Nghymru yn unig fod hyd at 64,000 o blant yn dioddef o ganlyniad i broblemau alcohol eu rhieni[25] (Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2006) a bod 17,500 o blant yn byw mewn teuluoedd sy'n dioddef oherwydd bod y rhieni yn camddefnyddio cyffuriau[26] (ACMD, 2003). Gyda llawer o gamddefnyddwyr sylweddau wedi cael plentyndod gwael eu hunain ac yn wynebu cryn broblemau seicolegol (Howe, 2005) a chymdeithasol-economaidd (Goodman, 2007), does

[18] Nifer cynrychiolwyr asiantaethau a gyfwelwyd am bob prosiect: Penybont=5 (Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Y Wallich, Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, Valleys 2 Coast Housing); Sir y Fflint=5 (Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Prosiect Genesis, Tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc, Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol); Casnewydd=5 (Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau Gwent, Fusion, Kaleidoscope, Cyngor Dinas Casnewydd); a Merthyr Tudful=5 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Uned Magu Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Tîm Derbyn, Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Lleol Diogelu Plant, Heddlu). Cyfanswm nifer y cynrychiolwyr asiantaethau a gyfwelwyd = 20. Yr oedd yr anawsterau a wynebwyd gan brosiect Blaenau Gwent o ran cyflwyno gwaith PYCRh wedi atal y tîm ymchwil rhag gallu cyfweld cynrychiolydd unrhyw asiantaeth.

[19] Seiliwyd yr arolwg gwe ar y rhestr gyfweld a ddefnyddiwyd gyda chynrychiolwyr asiantaethau allanol.

[20] Nifer cynrychiolwyr asiantaethau a atebodd yr arolwg gwe: Penybont=2 (Cymunedau'n Gyntaf, Heddlu); Sir y Fflint=7 (Bwrdd Lleol Diogelu Plant, Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol, Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol – Bydwreigiaeth, Nacro, GIMPPhI, Cyngor ar Bopeth, Cynadledda Grŵp Teulu); Casnewydd=4 (Cefnogaeth Teulu Cyffuriau ac Alcohol x2, Kaleidoscope, Gwasanaeth Prawf); a Merthyr Tudful=4 (Gwasanaethau Cymdeithasol, GOFAL Cymru, Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol, Prosiect Genesis). Cyfanswm nifer y cynrychiolwyr asiantaethau a atebodd yr arolwg gwe=17. Unwaith eto, ataliodd yr anawsterau a ddaeth i ran prosiect Blaenau Gwent o ran cyflwyno'r gwaith PYCRh y tîm ymchwil rhag gwneud yr haen hon o'r gwerthusiad gyda'r prosiect hwn.

[21] Cyfwelwyd plant yn unig yn y prosiectau hynny lle'r oedd gan weithwyr prosiect PYCRh gysylltiad uniongyrchol â hwy – yr oeddent oll yn blant rhieni a gyfwelwyd.

[22] Nifer rhieni a phlant a gyfwelwyd: Penybont=10 (8 rhiant, 2 blentyn); Sir y Fflint=13 (7 rhiant, 6 phlentyn); Casnewydd=10 (8 rhiant, 2 blentyn); a Merthyr Tudful=5 (5 rhiant). Cyfanswm nifer y rhieni a'r plant a gyfwelwyd=38. Unwaith eto, ataliodd yr anawsterau a ddaeth i ran prosiect Blaenau Gwent o ran cyflwyno'r gwaith PYCRh y tîm ymchwil rhag gwneud yr haen hon o'r gwerthusiad gyda'r prosiect hwn.

[23] Trwy ategu'r deunydd cyfweld ansoddol dwfn a gafwyd o (sampl cymharol fychan) o gyfweliadau gyda'r sawl gymerodd ran yn y prosiect, nod yr haen hwn o'r gwaith oedd sicrhau fod y gwerthusiad yn adlewyrchu'n gywir ystod llawn y gwaith a wnaeth y prosiectau. Mae nifer y ffeiliau achos a adolygwyd ym mhob safle yn cynrychioli sampl cyflawn y cleientiaid newydd a gymerwyd gan bob prosiect am y cyfnod Awst i Hydref 2008. Nifer ffeiliau achos a adolygwyd: Penybont=1 (1 rhiant); Sir y Fflint=15 (7 rhiant, 8 plentyn); Casnewydd=27 (27 rhiant); a Merthyr Tudful=6 (6 rhiant). Cyfanswm nifer y rhieni a'r plant a gyfwelwyd=49. Ar waethaf sawl ymgais i wneud trefniadau i gynnal adolygiad o ffeiliau achos prosiect PYCRh Blaenau Gwent prosiect, ni allodd yr ymchwilwyr fynd at y swyddfa i wneud y gwaith hwn.

[24] Bwriad gwreiddiol yr haen hwn o'r gwerthuso oedd cyflwyno canfyddiadau o adolygaidau cynhwysfawr neu systemaidd presennol, yn hytrach na *chynnal* adolygiad o'r cychwyn. Fodd bynnag, ni wnaed llawer o adolygiadau systemaidd ar ymyriadau i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau felly bu'n rhaid i'r tîm ymchwil dynnu'n uniongyrchol ar werthusiadau ac adroddiadau unigol.

[25] Amcangyfrifodd *Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol* y llywodraeth fod rhwng 780,000 a 1.3 miliwn o blant yn y DU yn dioddef oherwydd problemau alcohol eu rhieni (Uned Strategaeth, 2004).

[26] Yr oedd *Hidden Harm: Responding to the Needs of Problem Drug Users* yn amcangyfrif bod rhwng 250,000 a 350,000 o blant yn y DU yn byw mewn teuluoedd oedd yn dioddef effeithiau camddefnyddio cyffuriau gan y rhieni (ACMD, 2003).

fawr o syndod fod eu plant yn cael eu magu'n wael (Cleaver *et al*., 1999), yn byw mewn awyrgylch o straen, ac yn wynebu mwy o berygl niwed corfforol (Barnard, 2006; Harbin *et al*., 2000; Kroll & Taylor, 2003; Murphy & Harbin 2006; Taylor & Kroll, 2004; Tunnard, 2002).

Pan ddaw'n fater o ymdrin â chamddefnyddio sylweddau gan rieni, awgryma ymchwil (Velleman & Templeton 2007), yn ogystal ag ymdrin â chamddefnyddio sylweddau gan rieni yn uniongyrchol, fod gwaith gyda phlant camddefnyddwyr sylweddau i'w helpu i fagu 'gwytnwch' yn bwysig i liniaru unrhyw broblemau teuluol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'i gwneud yn llai tebygol y bydd y plant yn dioddef niwed estynedig neu sylweddol – yn enwedig os yw'n canoli ar leihau ffactorau risg (megis trais teuluol, gwahanu a dulliau anghyson o fagu) a chynyddu prosesau a ffactorau amddiffyn (megis cynnal defodau teuluol cadarnhaol ac ymwneud â phobl a gweithgareddau y tu allan i'r teulu). Mae tystiolaeth (gweler er enghraifft, Copello & Orford, 2002; Copello *et al*., 2005) hefyd yn dechrau ymddangos y gall ymyriadau a anelwyd at y teulu a rhwydweithiau cymdeithasol mewn gwirionedd arwain at newid therapiwtig cadarnhaol, gyda pheth ymchwil yn dangos bod y mathau hyn o ymyriadau naill ai cystal neu yn well o ran deilliannau o'u cymharu ag ymyriadau sy'n canoli ar gamddefnyddwyr sylweddau unigol (Copello *et al*., 2006).

Fodd bynnag, o ystyried y problemau lluosog sy'n wynebu llawer o'r rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau a'u teuluoedd, mae llawer golygwedd ar sut i ddiffinio 'llwyddiant' ymyriad. Mae'n bwysig ystyried 'pellter a deithiwyd' yn ogystal ag unrhyw ddeilliannau 'terfynol' – i rieni a phlant fel ei gilydd.

## 4. Datblygu PYCRh

Cododd y penderfyniad i beilotio rhaglen ymyriad cynnar i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau fel dull o weithredu camau a argymhellwyd yn adroddiad y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau yn 2003 *Niwed Cudd*. Yr oedd pryder ar yr un pryd hefyd yn y Cynulliad Cenedlaethol am y nifer cynyddol o blant oedd yn cael eu cyfeirio at adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol[27] o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan eu rhieni, a'r pwysau ariannol yn sgil hynny ar yr adrannau. Am nad oedd gwasanaethau teuluol penodol ar gael i gefnogi rhieni a'u hannog i newid eu hymddygiad a gwella eu gallu i fagu plant, roedd angen datblygu ymateb newydd. Felly, cyllidwyd rhaglen PYCRh i edrych i weld sut (a pha mor effeithiol) y gallai gwasanaethau ymdrin â'r peryglon i ddatblygiad, iechyd, perthynas a chynnydd addysgol plant mewn teuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau gan oedolion yn cael effaith ar eu gallu i fagu plant[28].

Heb fodel addas o wasanaeth, gwahoddwyd awdurdodau lleol a'r asiantaethau oedd yn bartneriaid iddynt i gyflwyno cynigion am gynllun peilot gwasanaeth

[27] Naill ai i dderbyn gofal neu eu gosod ar y gofrestr amddiffyn plant.

[28] Diffinnir y gallu i fagu plant fel: "Gallu rhieni neu'r sawl sy'n darparu gofal i sicrhau yr ymatebir yn briodol i anghenion datblygiadol y plentyn, a [gallu] addasu i newid yn anghenion [y plentyn] dros amser". Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer anghenion corfforol sylfaenol y plentyn, sicrhau ei ddiogelwch, "gofalu yr atebir anghenion emosiynol y plentyn a rhoi iddo deimlad o werth arbennig", hybu datblygiad deallusol y plentyn trwy annog a symbylu, dangos a modelu ymddygiad priodol a rheolaeth ar emosiynau, a darparu amgylchedd teulu digon sefydlog (Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adran Iechyd, 2001).

ymyriad cynnar i hybu lles plant. Disgrifiodd fframwaith gwasanaeth a manyleb y Cynulliad Cenedlaethol sut yr oedd y cynlluniau peilot i fod i roi pwyslais penodol ar botensial enillion iechyd a chymdeithasol plant yn yn tymor byr a hwy o ganlyniad i welliannau mewn magu plant ymysg rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Nododd yr angen am agwedd ymyriad cynnar oedd yn gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion[29] (yn hytrach na'r plentyn) i wella'r deilliannau i blant. Byddai ymyriad cynnar o'r fath yn cael ei dargedu cyn cyrraedd trothwy amddiffyn plant - 'fel na fyddai pryderon rhieni am ganlyniadau cyfeirio at adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn rhwystr'. Fe allai pryderon godi, serch hynny, am blant yn y teulu mewn angen.

Derbyniwyd cyfanswm o 15 cynnig, yn ymdrin ag 17 o'r 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Dewiswyd pump o'r cynigion i'w gweithredu fel cynlluniau peilot. Disgrifir isod nodweddion allweddol, natur, graddfa a dwysedd y gefnogaeth a gynigiwyd gan bob un o'r cynlluniau peilot hyn.

### 4.1 PYCRh Drugaid[30]

Datblygodd Drugaid brosiect PYCRh mewn dwy safle: Blaenau Gwent[31] a Merthyr Tudful[32]. Yr oedd dau weithiwr ym mhob prosiect yn rhoi cefnogaeth magu plant; ymyriad mewn argyfwng; gwybodaeth ac addysg am gamddefnyddio sylweddau; a lleihau niwed i rieni a gofalwyr oedd yn defnyddio sylweddau. Derbyniodd pob gweithiwr hyfforddiant *Parentline Plus*. Gwelwyd cleientiaid bob wythnos (neu yn llai aml), gyda sesiynau fel arfer yn para rhyw awr. Nid oedd rhaglen benodol o ymyriad nac uchafswm hyd ymwneud. Nid oedd y naill brosiect na'r llall yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

Ym Mlaenau Gwent, datblygwyd prosiect PYCRh Drugaid (a ail-enwyd yn STEPS yn Awst 2008) o'r newydd mewn ymateb i gyllid y Cynulliad Cenedlaethol. O fis Gorffennaf 2007 i Fehefin 2009, cyfeiriwyd 26 unigolyn i brosiect STEPS. Menywod oedd y rhan fwyaf a gyfeiriwyd (19 o 26 cyfeiriad), a'r oedran cyfartalog adeg cyfeirio oedd 30 (yn amrywio o 14 i 51 oed). O'r 26 cyfeiriad yr oedd wyth yn hunan-gyfeiriadau[33]; pump o asiantaethau cyffuriau; yr oedd tri o asiantaethau cyfiawnder troseddol; tri o'r gwasanaethau cymdeithasol; a saith o ffynonellau eraill.

Bu cefnogaeth i fagu plant yn bodoli yn Drugaid Merthyr Tudful ers llawer blwyddyn cyn cyllid PYCRh - Gwasanaeth Ymyriad Teuluol yn gweithio gyda rhieni y mae eu plant yn destun ymyriadau Gwasanaethau Cymdeithasol [34]. Gyda chyllid PYCRh, datblygodd Drugaid Merthyr Tudful ganolbwynt penodol ar

---

[29] Rhoddwyd targed y gwasanaeth fel oedolion sy'n gyfrifol am fagu un neu fwy o blant sydd dan 18 oed ar adeg tebygol cau ymwneud y prosiect ag unrhyw deulu. Mae'r diffiniad hwn yn cynnnwys rhieni biolegol neu enedigol, rhieni mabwysiedig, rhieni benthyg eraill a theidiau a neiniau mewn sefyllfaoedd lle mae ganddynt waith a chyfrifoldebau sylweddol o ran gofalu am y plant dan sylw.

[30] Yr oedd nifer y cleientiaid i STEPS (Drugaid Blaenau Gwent) yn rhy fychan i wneud dadansoddiad ar wahân. Felly, er y disgrifir y prosiectau ar wahan, rhoddir adroddiad am ddata cleientiaid o ddau brosiect Drugaid gyda'i gilydd.

[31] Roedd dwy is-swyddfa gan y prosiect, fel y gallai ymdrin â Blaenau Gwent gyfan – ardal o radiws tua 30 milltir.

[32] Mae'r prosiect yn ymdrin â Bwrdeistref Merthyr – ardal o radiws tua 15 milltir.

[33] Mae hyn yn ymgorffori cyfeiriadau Drugaid.

[34] Gweithio mewn partneriaeth â Thîm Plant ba Phobl Ifanc y Gwasanaethau Cymdeithasol.

atal plant a phobl ifanc rhag mynd i ofal y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ymyriad Teuluol oedd yn parhau[35]. Rhwng Gorffennaf 2007 a Mehefin 2009, cafodd prosiect PYCRh Drugaid 119 cyfeiriad am 91 o unigolion[36]. Yr oedd rhyw ddau ran o dair o'r cyfeiriadau (65 y cant) yn ddynion. Yr oedran cyfartalog adeg cyfeirio oedd 32 (yn amrywio o 12 i 57 oed). Hunan-gyfeiriadau oedd mwy na'u hanner (54 y cant)[37]. Daeth cyfeiriadau eraill o asiantaethau cyffuriau (16 cyfeiriad); asiantaethau cyfiawnder troseddol (11 cyfeiriad); teulu, cyfeillion neu gyflogwyr (naw cyfeiriad); gwasanaethau iechyd (saith cyfeiriad);gwasanaethau cymdeithasol (saith cyfeiriad); a daeth pum cyfeiriad o ffynonellau eraill. O ran nodweddion allweddol y cleientiaid wedi eu cyfuno ar draws dwy safle PYCRh Drugaid :

- Yr oedd rhyw dri chwarter o'r cyfeiriadau (71 y cant) yn defnyddio sylweddau yn ddyddiol. Y prif sylwedd mwyaf cyffredin oedd alcohol (55 y cant) gyda 19 y cant arall yn defnyddio heroin. Yr oedd rhyw un o bob pump o bob cyfeiriad yn defnyddio mwy nac un sylwedd.
- O'r 1,287 cyswllt a gynlluniwyd, arweiniodd 72 y cant at gyswllt *a ddigwyddodd*. Saith oedd nifer cyfartalog y cysylltiadau *a ddigwyddodd* am bob cleient (yn amrywio rhwng un ac 84)[38].
- Yn gyffredinol, yr oedd 37 o'r ymyriadau a gynlluniwyd yn sesiynau cwnsela/symbylu. Galwadau teliffon oedd 21 y cant arall, 20 y cant yn asesiadau, a'r gweddill (22 y cant) yn amrywiaeth o ymyriadau eraill[39].
- Cynlluniwyd rhyw draean o'r cysylltiadau (31 y cant) yng nghartref y cleient, gyda 53 y cant arall ar gyfer y swyddfa. Yr oedd defnydd y swyddfa yn amrywio dros y blynyddoedd o 73 y cant yn 2007 i 40 y cant yn 2009. Fodd bynnag, yr oedd llawer o'r symudiad hwn i fannau ar wahan i gartref y cleient[40].

## 4.2 Jigsaw (Casnewydd)

Credwyd prosiect Jigsaw yn unswydd mewn ymateb i gyllid PYCRh ac yr oedd yn gweithredu dan ambarel gwasanaethau Cyngor Gwent ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau (GCADM)[41]. Y nod oedd cefnogi rhieni gydag anawsterau camddefnyddio sylweddau (yn awr neu yn y gorffennol) trwy ymyriadau byr a gwaith lleihau niwed. Ceisiodd Jigsaw wneud y mwyaf o agwedd magu plant ei wasanaethau cefnogi – gan gydnabod y gallai rhai cleientiaid gael 'hunaniaeth magu plant' y gwasanaeth yn llai o warthnod na gwasanaeth arbenigol camddefnyddio sylweddau[42].

---

[35] Cafodd yr holl cleientiaid Drugaid gyda chyfrifoldeb rhieni nad oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol eu cyfeirio trwy weithwyr PYCRh.
[36] Cafodd un ar bymtheg (18 y cant) o bobl eu cyfeirio ddwywaith yn ystod yr amser hwn a chyfeiriwyd chwech o bobl (saith y cant) deirgwaith.
[37] Mae hyn yn ymgorffori cyfeiriadau mewnol Drugaid.
[38] Roedd gan ryw un o bob pump (21 y cant) o leiaf 10 cyswllt.
[39] Gan gynnwys ymyriadau megis: gwybodaeth/cyngor/addysg; sgiliau bywyd/ymdopi; anfon llythyrau; cefnogaeth magu plant; atal llithro'n ôl; cychwyn/adolygu cynllun gofal; cyswllt; ac eiriol.
[40] Gan gynnwys gorsafoedd heddlu, prawf, ysgolion, Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysbytai – er nad oedd manylion penodol wedi eu cofnodi i'r mwyafrif.
[41] Yr oedd y prosiect yn ymdrin â Chasnewydd gyfan.
[42] Er y gwnaed gwaith lleihau niwed cychwynnol, yr oedd y rhan fwyaf o gleientiaid dwys Jigsaw eisoes yn mynychu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, neu os nad oeddent, fe'u cyfeiriwyd atynt pan nodwyd angen felly (e.e. Kaleidoscope am ragnodi amnewidiol).

Yr oedd y prosiect yn rhedeg rhaglen benagored ac yn cyflwyno spectrwm eang o ymyriadau, gan gynwys: dyddiau agored; gweithdai ataliol byr i godi ymwybyddiaeth o faterion magu plant ymysg cleientiaid asiantaethau allanol; cefnogaeth unigol dros y ffôn a wyneb yn wyneb ; a gwaith mwy dwys gyda rhieni unigol[43]. Nid yn unig yr oedd cynnwys y rhaglen wedi ei theilwrio i angen y cleient, ond yr oedd dwysedd y gwaith hefyd yn amrywio llawer yn dibynnu ar anghenion y rhieni am gefnogaeth. Cyflwynodd Jigsaw hefyd y rhaglen *Parents Together* oedd yn cynnwys: therapi ymddygiadol gwybyddol; cyfweld symbyliadol; cyfathrebu di-drais (Marshall-Rosenberg); arfau a sgiliau therapi oedd yn canoli ar atebion; ac arfau cwnsela cyffredinol. Er nad oeddent yn cyflwyno ymyriadau yn uniongyrchol i blant (dan 18), yr oedd y prosiect yn eu cynnwys mewn rhai gweithgareddau.

Rhwng Ionawr 2008 ac Awst 2009, bu 171 o gleientiaid[44] mewn 27 gweithdy[45]. Clywsai cyfranogwyr am y prosiect o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynwys: gweithiwr Jigsaw (33 y cant); grŵp chwarae (15 y cant); cyfaill neu aelod o'r teulu (saith y cant); poster (chwech y cant). Gellir crynhoi nodweddion y sawl fu arw eithdy fel a ganlyn:

- Bu chwech o gleientiaid ar gyfartaledd ym mhob gweithdy (ystod: un i 19 o gleientiaid).
- Menywod oedd mwyafrif y cleientiaid (92 y cant).
- Yn nodweddiadol, roedd y cyfranogwyr yn 26 i 35 oed (56 y cant).
- Cafodd y prosiect gryn lwyddiant yn denu cyfranogwyr o grwpiau lleiafrifol ethnig. Ymysg y sawl gymerodd ran yn y gweithdai, er mai 54 y cant oedd yn disgrifio eu hunain fel gwyn, disgrifiodd dros 30 y cant eu hunan fel Asiaidd (y grŵp mwyaf o'r rhain oedd Pacistaniaid ar dros 20 y cant) [46].

Am waith unigol y prosiect, oherwydd newid yn y drefn o gofnodi data, rhaid adrodd am weithgaredd y prosiect mewn dau gyfnod ar wahân[47]. Yn ystod y cyfnod naw mis cychcywnnol (Hydref 2007 i Fehefin 2008 gan gynnwys y ddau fis) cefnogwyd cyfanswm o 60 o rieni gan y prosiect.

- Derbyniodd y prosiect 80 cyfeiriad. Y ffurf mwyaf cyffredin o gyfeirio oedd hunan-gyfeirio (36 y cant), ac yna: Kaleidoscope (15 y cant); Gwasanaethau Cymdeithasol (14 y cant); prawf (chwech y cant); GAP (six y cant); a GSSMS (pump y cant).
- Gwnaed 81 apwyntiad cychwynnol i 53 o rieni. Jdaeth ychydig dros hanner (54 y cant) i'r apwyntiadau hyn a drefnwyd.
- Gwnaed 140 o apwyntiadau cyson i 31 o rieni. Unwaith eto, daeth tua hanner (49 y cant) i'r apwyntiadau hyn.

---

[43] Wrth i'r prosiect ddatblygu ac i lwybrau cyfeirio ddod yn fwy sefydledig, yr oedd y prosiect yn ceisio canolbwyntio mwy ar ddatblygu ei waith unigol.
[44] Yr oedd gan y 171 cleient o leiaf 417 o blant rhyngddynt – fel arfer, roedd ganddynt ddau o blant ond yr oedd hyn yn amrywio rhwng un a chwech o blant.
[45] 11 math gwahanol o weithdy. Cynhaliwyd gweithdy hefyd yn Rhagfyr 2007 pryd y daeth wyth cleient arall (er na chofnodwyd manylion pellach am y cleientiaid hyn).
[46] Yng Nghyfrifiad 2001 Census, yr oedd 95 y cant o boblogaeth Casnewydd gyfan yn disgrifio eu hunain fel gwyn, a'r grŵp ethnig mwyaf nesaf oedd Pacistanaidd, sef llai na dau y cant. Gweler http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/00PR-A.asp
[47] Cafwyd cyfnod o naw mis cyn i gronfa ddata'r prosiect fod yn ei le (Hydref 2007 i Fehefin 2008 gan gynwys y ddau fis). Mae dadansoddiad o'r cyfnod hwn wedi ei seilio ar grynodebau cyswllt papur wedi eu troi'n ddienw ac a ddarparwyd gan y prosiect ac felly nid oedd modd gwirio'r cofnodion hyn na'u cyfatebu â data'r gronfa ddata o Orffennaf 2008 ymlaen. Mae'n bosibl bod rhai unigolion yn ymddangos yn y ddwy gyfres o ddata.

- Yr oedd hefyd 127 o sesiynau cefnogaeth teliffon a chefnogwyd rhai cleientiaid hefyd mewn sesiynau grŵp neu glinig. Cafwyd naw sesiwn clinig cychwynnol a 14 o sesiynau clinig dilynol, a 30 o sesiynau grŵp cychwynnol a 25 o sesiynau grŵp dilynol.

Yn ystod yr ail gyfnod 14-mis (Gorffennaf 2008 i Awst 2009 gan gynnwys y ddau fis), gweithiodd y prosiect yn unigol gyda 146 o rieni.

- Derbyniodd y prosiect 109 cyfeiriad newydd. I fenywod yr oedd y rhan fwyaf (65 y cant), ac yr oedd dau gyfeiriad i gwpl.
- Y llwybrau cyfeirio mwyaf cyffredin oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol (30 y cant), prawf (13 y cant), GAP (11 y cant) a hunan-gyfeiriadau (naw y cant). Yn gyffredinol, yr oedd 28 o wahanol asiantaethau yn cyfeirio cleientiaid, gan gynwys ysgolion a meithrinfeydd, gwasanaethau plant, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol , a grwpiau i leiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid.
- Trefnodd y prosiect 182 apwyntiad am sesiynau cychwynnol i'r 109 a gyfeiriwyd. Yn gyffredinol, bu, 78 o'r rhai a gyfeiriwyd (72 y cant) mewn apwyntiad a drefnwyd. Golyga hyn fod 43 y cant (78 o 182) o apwyntiadau wedi arwain at fynychu sesiwn, sydd yn dangos anawsterau gweithio gyda'r grŵp cleient hwn.
- Gwnaed 748 apwyntiad am sesiynau i 102 o gleientiaid (yn amrywio rhwng un a 31 apwyntiad am bob cleient). Yr oedd y presenoldeb fymryn yn well i'r sesiynau hyn gyda 55 y cant o bresenoldeb.
- Yn gyffredinol, bu 76 o gleientiaid mewn o leiaf un apwyntiad[48].
- Hefyd, cafwyd 66 sesiwn o gefnogaeth deliffon i 34 o gleientiaid[49].
- Cofnodwyd hefyd 72 o ymyriadau byr[50].

Bu gweithwyr y prosiect hefyd mewn cyfarfodydd rhwydweithio a chyfarfodydd hybu'r gwasanaeth 123 gwaith, gan gofnodi hyn. Cafwyd 102 sesiwn goruchwylio staff[51] a 55 sesiwn hyfforddi.

### 4.3 Families Matter (Barnardo's, Sir y Fflint)

Gweithiodd prosiect Families Matter gydag oedolion ar draws Sir y Fflint oedd yn gyfrifol am fagu un neu fwy o blant dan 18 oed. Cafodd rhieni eu cynnwys ar y rhaglen os: oedd eu camddefnyddio sylweddau yn ymyrryd â'u sgiliau magu plant; fod arnynt angen y gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig a'u bod wedi cydsynio i gyfeirio gael ei wneud; a/neu y gallasai eu plant fod wedi elwa o welliant yn amgylchiadau'r teulu[52].

Rhoes prosiect Families Matter raglen 24-wythnos o ymyriad i deuluoedd cyfan oedd yn ymgorffori: therapi ymddygiadol gwybyddol; cyfweld symbyliadol;

---

[48] Mynychodd pob un o'r 76 cleient hyn bum sesiwn ar gyfartaledd yr un (er bod hyn yn amrywio rhwng un a 24 sesiwn).

[49] Pob un yn derbyn rhwng un a phum galwad.

[50] Yr oedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o ymyriadau uniongyrchol i gleientiaid megis: ysgrifennu llythyrau; ysgrifennu adroddiadau am gynadleddau agos neu adolygiadau magu eraill; mynychu cyfarfodydd gwasanaethau cymdeithasol, a mynd i'r llys.

[51] Mae gweithio dan oruchwyliaeth yn golygu bod cwnselydd neu therapydd yn defnyddio gwasanaethau cwnselydd neu therapydd arall i adolygu eu gwaith gyda chleientiaid a'u datblygiad proffesiynol. Mae goruchwylio yn y cyd-destun hwn felly yn wasanaeth proffesiynol sy'n cael ei ystyried yn hanfodol am y math hwn o waith, yn hytrach na rôl reoli.

[52] Gall rhieni gael eu heithrio o'r rhaglen os ydynt: yn myhnd trwy argyfwng mawr; heb gydsynio i gyfeirio; â phroblemau iechyd meddwl difrifol; neu yn dangos ymddygiad peryglus (tuag at weithwyr y prosiect).

gwaith unigol a chyda cyplau; cyfarfodydd grŵp teulu; sgiliau magu plant[53]; a chefnogaeth ymarferol. Yr oedd y gymysgedd benodol o waith grŵp[54] a gwaith unigol yn dibynnu ar sefyllfa'r unigolyn. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o ymyriadau naill ai yn swyddfa'r prosiect neu mewn eiddo estyn allan.

Rhwng Gorffennaf 2007 a Gorffennaf 2009 gweithiodd prosiect Families Matter Barnardo's gyda 59 o gleientiaid oedd yn oedolion (44 benyw, 14 gwryw ac un nas cofnodwyd y rhyw). Yr oedd oedran y cleientiaid yn amrywio o 20 i 63 ac yr oedd y mwyafrif llethol yn 'wyn'. Cyfeiriwyd dros chwarter (n=17) o'r oedolion o'r Gwasanaethau Cymdeithasol; yr oed dychydiog dan chwarter (n=14) yn hunan-gyfeiriadau; a daeth 17 y cant (n=10) o'r Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol. Adeg casglu'r data, yr oedd tri chwarter (n=44) y cleientiaid o oedolion yn achosion caeedig; yr oedd y chwarter oedd yn weddill (n=15) yn dal yn achosion agored. Dengys dadansoddiad o'r achosion caeedig, er y bwriadodd prosiect Families Matter ymwneud â chleientiaid am gyfnod o 24 wythnos, mewn gwirionedd fod bron i ddwy ran o dair o gleientiaid[55] yn ymwneud â'r prosiect am rhwng 25 wythnos a blwyddyn, a mwy nac un o bob deg am dros flwyddyn. O ran nifer cysylltiadau â staff y prosiect, cafodd dros draean[56] fwy na 50 o gysylltiadau yn ystod eu hamser ar brosiect Families Matter.

O Hydref 2007 i Fehefin 2009 gweithiodd prosiect Families Matter Barnardo's gyda g 81 o gleientiaid ifanc (46 merch, 25 bachgen a 10 lle nad chofnodwyd rhyw). Yr oedd oedran y cleientiaid ifanc yn amrywio o blant mân i 18 oed, ac yr oedd y mwyafrif llethol yn 'wyn'. Cyfeiriwyd ychydig dros chwarter (n=23) o gleientiaid ifanc gan yr awdurdod lleol; ychydig dan chwarter (n=18) yn hunan-gyfeiriadau; 17 y cant (n=14) o asiantaethau statudol; ac yr oedd 15% o wasanaethau iechyd. Adeg casglu'r data, yr oedd dros bedwar o bob puump (n=66) o'r cleientiaid ifanc yn achosion caeedig; yr oedd yr 19 y cant (n=15) oedd weddill yn dal yn achosion agored. Dengys dadansoddiad o'r achosion caeedig fod dau o bob pump [57] o'r cleientiaid ifanc (42 y cant) yn ymwneud â'r prosiect am rhwng 25 wythnos a blwyddyn, a bron i un o bob pump (17 y cant) am dros flwyddyn. Felly, fel gyda'r rhieni, mae prosiect Families Matter yn cefnogi cleientiaid ifanc am gyfnod sylweddol iawn. Fodd bynnag, yn wahanol i achosion yr oedolion, cafodd y mwyafrif llethol (92 y cant[58]) o'r cleientiaid ifanc lai nac 20 cyswllt gan y prosiect[59].

## 4.4 PYCRh Penybont

Datblygwyd prosiect PYCRh Penybont mewn ymateb i ffrwd gyllido PYCRh, a bu'n rhedeg o Ebrill 2007[60] tan ddiwedd Mawrth 2009[61]. Wedi'i fodelu ar gynllun

[53] Ymysg rhai o'r dulliau a ddefnyddir mae: Blynyddoedd Rhyfeddol; Escape; a pheth gwaith mewnol wedi ei gynllunio ar drais yn y cartref, datrys anghydfod, camddefnyddio sylweddau a'i effaith ar blant.
[54] Oherwydd maint Sir y Fflint, datblygwyd grwpiau yn ne a gogledd y sir. Darparwyd cyfleusterau crèche i'r rhai oedd eu hangen.
[55] Er bod 44 o achosion caeedig , yr oedd data ar gael i ddim ond 36 o achosion caeedig.
[56] O'r 23 achos caeedig y darparwyd data ar eu cyfer.
[57] Er bod 66 o achosion caeedig, cofnodwyd data ar gyfer 24 achos caeedig.
[58] O'r 24 achos caeedig y darparwyd data ar eu cyfer.
[59] Er bod hyn yn llai na'r cleientiaid o oedolion, yr oedd llawer o'r bobl ifanc hefyd yn ymwneud â phrosiect Gofalwyr Ifanc Barnardo's yn ystod eu hamser gyda phrosiect Families Matter.
[60] Er na dderbyniwyd cleientiaid tan fis Tachwedd 2007.
[61] Er mwyn gadael i'r holl deuluoedd gwblhau'r rhaglen 24 wythnos lawn, cymerodd y prosiect eu cyfeiriadau olaf ym mis Hydref 2008.

Dewis 2[62], ei nod oedd gwella gweithredu'r teulu yn gyffreidnol, a gweithiodd yn ddwys gyda phob aelod o'r teulu[63]. Er bod cymryd rhan yn wirofddol, yr oedd pedwar prif faen prawf cyfeirio gan y prosiect:

- Tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau yn y teulu;
- Cleientiaid yn byw yn sir Penybont[64];
- Cyswllt presennol gyda gwasanaethau iechyd; a
- Yr oedd yn rhaid i'r rhieni fod yn byw gartref gyda'u plant, neu yn gofalu amdanynt gartref am o leiaf ran o'r wythnos.

Derbyniodd y prosiect gleientiaid oedd wedi hunan-gyfeirio a hefyd derbyniodd gyfeiriadau oddi wrth: Cychwyn Cadarn[65], On Track[66], DIP/DRR[67], CDAT, yr Heddlu, TSS (carchar) ac eraill[68]. Gweithiodd staff y prosiect yng nghartrefi cleientiaid[69], gyda phob teulu yn cael y gweithiwr oedd fwyaf addas ar eu cyfer. Cychwynnodd y prosiect weithio gyda'r teuluoedd trwy ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Cyffredin (FfAC) gyda phob aelod o'r teulu (rhieni, plant ac unrhyw deulu estynedig gyda chyfrifoldeb rhieni). Yr oedd pedair wythnos gyntaf y rhaglen gylchol 24-wythnos yn waith dwys. Yna cadwodd y prosiect at gefnogaeth llai dwys (fel arrfer, ymweliadau ddwywaith yr wythnos) tan ddiwedd yr ymyriad. Yr oedd y prosiect yn canoli ar y teulu, yn gefnogol, yn hyblyg ac yn anelu at nod – gan ddefnyddio cyfuniad o help ymarferol, cyfraniadau seicolegol[70] ac egwyddorion Webster Stratton[71] (Blynyddoedd Rhyfeddol). Cafwyd teithiau i'r teuluoedd hefyd, modelu chwarae a symbylu'r teulu cyfan i ymwneud yn gadarnhaol.

---

[62] Mae Dewis 2 yn wasanaeth llwyddiannus sydd wedi ei werthuso (cyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol) sydd yn gweithio gyda theuluoedd â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau y mae eu plant mewn perygl o niwed. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio yn arbennig ar leihau'r angen i blant ddod i ofal cyhoeddus. Mae'n gweithio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r ymyriad yn fyr (4 i 6 wythnos) ac yn ddwys (mae gweithwyr ar gael 24 awr y dydd). Mae gweithwyr yn defnyddio cyfuniad o Gyfwelad Symbyliadol ac arddulliau cwnsela Canoli ar Atebion, yn ogystal ag ystod o ymyriadau therapiwtig ac ymarferol eraill. Datblygodd rheolwr prosiect PYCRh y model 6-wythnos Dewis 2 yn rhaglen ataliol 24-wythnos.

[63] Rhieni, plant ac unrhyw deulu estynedig gyda chyfrifoldeb rhieni. Roedd gofyn i'r teulu cyfan arwyddo i fod yn rhan o'r rhaglen, gan ddefnyddio contract ffurfiol.

[64] Yn wreiddiol, yr oedd y prosiect yn canoli ar ddwy ardal fechan ym Mhenybont, ond ehangodd y cylch daearyddol – yn gyntaf i gyfranogwyr yn byw o fewn radiws 10-milltir o'r prosiect, ac yna i sir Penybont gyfan – radiws o ryw 50 milltir.

[65] Gweithio gyda phlant 0-3 oed a'u teuluoedd.

[66] Gweithio gyda phlant 4-13 oed a'u teuluoedd yn gyffredinol (rhai 3-13 oed ym Mhenybont i gefnogaeth drosiannol o Dechrau'n Deg. Mae PYCRh ac On Track yn rhannu swyddfeydd ym Mhenybont.

[67] Arweiniodd natur wirfoddol y contract rhwng y gwasanaeth a'r teuluoedd at anawsterau gyda chyfeiriadau DRR o'r Gwasanaeth Prawf oherwydd natur orfodol elfen gymunedol y gorchymyn.

[68] I ddechrau, oherwydd ei ffocws fel gwasanaeth *ataliol cynnar*, nid oedd PYCRh Penybont yn cymryd cyfeiriadau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, yr oedd y polisi hwn yn rhwystro gallu'r prosiect i gael cyfeiriadau, ac felly ehangwyd y meini prawf cynnwys i ymgorffori achosion lle'r oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud dim ond rhoi cyngor i deulu.

[69] Yn ychwanegol at y gwaith achos hwn, cynhaliwyd sesiynau galw i mewn mewn ambell i ardal, a chynhaliwyd 'Dyddiau Teulu' yn y carchar unwaith y mis. Yr oedd y rhain yn cynnwys ymyriadau unigol (un ymweliad) ac ymweliadau dros gyfnod o amser. Yr oedd dyddiau teulu seiliedig ar y carchar yn cynnwys rhoi amrywiaeth o adnoddau i hwyluso gwell cysylltiad â'u rhiant yn y carchar, e.e. siartiau seren, llyf 'Popeth Amdana'i', a gwaith ar dechnegau disgyblu.

[70] e.e. Technegau therapi yn canoli ar atebion, Therapi Ymddygiadol Gwybyddol, cyfweld symbyliadol, a chwnsela.

[71] Mae Webster Stratton yn rhaglen a gefnogir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond mae prosiectau PYCRh yn tybio nad yw'n cyfarfod yn llawn ag anghenion rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Y canfyddiadau yw: bod gormod o waith ysgrifenedig; ei fod yn rhy Americanaidd a dosbarth-canol; yn anodd ei gyflwyno a gweithio gydag ef; ac yn rhy strwythuredig – fod angen rhaglen o ymyriad (yn hytrach na gweithdai byrion y gellir eu cyflwyno fel ymyriad ar ei ben ei hun, neu ei ddefnyddio i ddwyn i mewn deuluoedd mewn gwaith tymor hwy). Addasoss PYCRh Penybont y cynllun a'i gynnig i rieni priodol (e.e. y rhai oedd yng ngharchar y Parc a chleientiaid Rhaglen Ymyriad Cyffuriau).

Rhwng Tachwedd 2007 a Gorffennaf 2008, gweithiodd PYCRh Penybont gyda chyfanswm o 63 cleient o 20 o deuluoedd. Y cleientiaid oedd 25 rhieni (16 benyw a naw gwryw) gyda 38 o blant (21 bachgen, 15 merch a dau lle na chofnodwyd y rhyw). Yr oedd 2.1 o blant ym mhob teulu ar gyfartaledd[72], gyda'r oedran ar gyfartaledd yn naw[73], ac oedran y rhieni ar gyfartaledd yn 32[74]. Dros yr un cyfnod, cofnodwyd 331 o ymyriadau i 27 aelod o 12 teulu. Cafodd y teuluoedd hyn 28 ymyriad yr un ar gyfartaledd[75]. Cofnodwyd cyfanswm o dros 256 awr o amser cyswllt i'r 331 ymyriad, sydd yn adlewyrchu'r ffordd ddwys y gweithiodd PYCRh Penybont gyda chleientiaid. I bob teulu, yr oedd hyn yn 21.4 awr ar gyfartaledd[76]. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o ymyriadau (80 y cant) yng nghartref y cleient, ac yr oedd mwyafrif llethol y cysylltiadau yn rhai wyneb-yn-wyneb[77]. Yr oedd y rhan fwyaf o gysylltiadau hefyd yn gynlluniedig, ac yr oedd presenoldeb yn dda yn yr ymyriadau cynlluniedig hyn: llai na dau y cant na lwyddodd i ddigwydd.

### 4.5 Crynodeb

Dengys disgrifiadau'r prosiect wahaniaethau mawr rhwng y gwahanol brosiectau PYCRh – yn benodol o ran eu hagwedd at fynd at gleientiaid a gweithio gyda hwy. Tra bod yr amrywiaeth enfawr yng nghynllun y prosiectau yn ei gwneud yn anodd dehongli "llwyddiant" cyffredinol rhaglen PYCRh yn feintiol, mae'n galluogi'r gwerthusiad i gymharu rhwng y gwahanol agweddau a dulliau ymyriad a ddefnyddiwyd, ac ymchwilio i fanteision a/neu wendidau pob un. At y dadansoddiad cymharol hwn y try'r adroddiad yn awr.

## 5. Modelau ymyriad

Prif ddiben yr ymchwil hwn yw gwerthuso effeithiolrwydd[78] ystod y modelau ymyriad a ddefnyddiwyd gan brosiectau PYCRh a nodi'r rhag-amodau i'w gweithredu yn effeithiol a'r cyd-destunau arbennig lle mae modelau penodol yn effeithiol. O'r prosiectau PYCRh gwahanol iawn, gellir adnabod pedwar model o ymyriad gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

- Model 1: Dwysedd isel, prif ganolbwynt ar gamddefnyddio sylweddau.[79]
- Model 2: Dwysedd isel, prif ganolbwynt ar fagu plant.[80]
- Model 3: Dwysedd canolig, canolbwynt deuol ar gamddefnyddio sylweddau *a* magu plant.[81]
- Model 4: Dwysedd uchel, canolbwynt deuol ar gamddefnyddio sylweddau *a* magu plant.[82]

[72] Yr oed dy nifer yn amrywio rhwng un a phump o blant.
[73] Oedran y plant yn amrywio o ddwyflwydd i 23 oed.
[74] Oedran y rhieni yn amrywio o 19 i 48 oed.
[75] Yn amrywio o un i 89 ymyriad i deuluoedd unigol.
[76] Teuluoedd unigol yn amrywio o ychydig dan awr i 44 awr yr un.
[77] Dim ond chwech y cant o gysylltiadau oedd yn alwadau teliffon.
[78] O ran ymddygiad magu plant priodol a chanlyniadau cadarnhaol i blant.
[79] e.e. y ddau PYCRh Drugaid.
[80] e.e. prosiect Jigsaw.
[81] e.e. prosiect Families Matter Barnardo's
[82] e.e. PYCRh Penybont

Caiff gweddill yr adroddiad hwn ei strwythuro o gwmpas y pedwar model ymyriad hwn, fel bod modd cymharu'n uniongyrchol rhwng yr amrywiol fodelau, ac yn fwy pwysig, cymhwyso canfyddiadau'r ymchwil yn y ffordd orau i faes ehangach yr hyn sy'n gweithio[83] gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Wedi disgrifio pob model ymyriad, trafodir y prosesau a'r canfyddiadau allweddol yn eu tro (gan ddefnyddio prosiectau PYCRh fel esiampl o bob un model).

### 5.1 Model 1: Dwysedd isel - camddefnyddio sylweddau

Mae prosiectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn yn debyg iawn i wasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau traddodiadol Haen 3[84]. Mae gwasanaethau Haen 3 yn ymgorffori amrywiaeth o agweddau – gydag anghenion y cleient am gefnogaeth yn bennaf yn sail[85] - gyda'r nod o alluogi oedolion i leihau'r niwed iddynt eu hunain a gweithio tuag at ddefnyddio llai o gyffuriau a/neu alcohol[86]. Er bod gweithwyr yn cael eu hyfforddi i ymgorffori cefnogaeth i fagu plant yn anffurfiol trwy eu gwaith gyda'r cleientiaid, mae'r graddau yr ymdrinnir yn uniongyrchol â materion magu plant mewn gwasanaethau o'r math hwn yn dibynnu ar gael y cleientiaid i sylweddoli effaith eu camddefnyddio sylweddau ar les plant. Yn ychwanegol at hyn, er y ceisir cysylltiadau fel arfer â'r gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi, perthynas waith wael fu yn draddodiaol rhwng gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol – gyda'r cyntaf yn pryderu fod ofn rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau o ymyriadau Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu gwneud yn gyndyn o geisio help, a'r olaf yn beirniadu'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau am beidio â rhoi digon o ystyriaeth i anghenion plant.

### 5.2 Model 2: Dwysedd isel – magu plant

Mae prosiectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn â chyswllt agos â gwasanaethau cefnogi magu plant, ond mae'n cael ei gyflwyno gan weithwyr sydd hefyd yn gwybod am y problemau penodol sy'n codi i gamddefnyddwyr sylweddau. Nod prosiectau fel hyn yw: dwyn i mewn ystod eang o rieni[87] gydag anghenion cefnogaeth a'u helpu i ddatblygu sgiliau magu palnt mwy effeithiol; a chodi ymwybyddiaeth rhieni o effeithiau unrhyw gamddefnyddio sylweddau ar weithrediad y teulu[88]. Mae cyflymder a dyfnder ymdrin yn benodol â chamddefnyddio sylweddau gan y cleientiaid yn dibynnu i raddau helaeth ar ymwybyddiaeth y cleient unigol o effaith camddefnyddio sylweddau ar

[83] O ran gwahanol fodelau o ymyriad.

[84] "Triniaeth gyffuriau yn y gymuned yw hon, gyda sesiynau rheolaidd i'w mynychu, fel rhan o gynllun gofal. Mae rhagnodi, rhaglenni dydd strwythuredig ac ymyriadau seico-gymdeithasol strwythuredig (cwnsela, therapi etc) yn wastad yn Haen 3. Gall cyngor, gwybodaeth a lleihau niwed fod yn Haen 3 os ydynt yn rhan o gynllun gofal". Gwefan NTA.

[85] Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau fel arfer yn trin y cleient fel unigolyn, heb ddwyna elodau'r teulu i mewn.

[86] Er ei bod yn annhebygol cael terfyn amser i ymwneud â chleientiaid, mae gwasanaethau triniaeth am gamddefnyddio sylweddau fel arfer yn tueddu i weithio gyda chleientiaid am o leiaf 12 wythnos. Fodd bynnag, gan mai yn wirfoddol y cymerir rhan, efallai nad yw llawer o gleientiaid yn sylweddoli bod hyn yn nod gan y gwasanaeth.

[87] Mae prosiectau sydd yn dilyn y model ymyriad hwn yn aml yn ceisio cyrraedd hynny o rieini a fedrant trwy fabwysiadu diffiniadau gweddol eang o 'ymyriad cynnar' a 'chamddefnyddio sylweddau'. Fel hyn, mae modd adnabod yn hytrach nac eithrio'r rhai sydd mewn mwyaf o angen am ymyriad a chefnogaeth fwy dwys.

[88] I'r rhan fwyaf o gleientiaid, sydd yn 'pigo i mewn ac allan' o'r prosiectau hyn wrth i'w hanghenion am gefnogaeth magu plant amrywio, does dim strategaeth adael ffurfiol – yn aml, dim ond polisi 'drws agored'. I'r cleientiaid hynny gaiff ymyriadau mwy sylweddol, fodd bynnag, ac yn enwedig y sawl sy'n cymryd rhan yn rhaglen *Parents Together*, bydd dyddiad diweddu pendant a chynllun gadael unigol.

weithrediad y teulu, a'u parodrwydd i gydnbod hynny[89]. Lle bo hynny'n briodol, bydd prosiectau o'r math hwn yn ceisio annog a chefnogaeth mynd at wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau.

## 5.3 Model 3: Dwysedd canolig – canolbwynt deuol

Mae prosiectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn yn gweithio ar y rhagdyb fod yn rhaid ymdrin â chamddefnyddio sylweddau *a* magu plant yn glir ac o'r cychwyn wrth ymwneud â'r cleientiaid. Y nod yw lleihau camddefnyddio sylweddau ar ran y rhieni (yn bennaf trwy i gleientiaid ymwneud â gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cefnogi eraill), a sicrhau gwell gweithredu yn y teulu a datblygu awyrgylch fwy diogel yn y cartref i'r plant. Gyda'r grŵp cleient y mae'r prosiectau hyn yn eu targedu yn rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau gydag angen clir am gefnogaeth i wella gweithredu eu teulu[90], mae modd cyflwyno cefnogaeth fwy dwys wedi ei dargedu ar unwaith, ac y mae modd ymdrin â mater camddefnyddio sylweddau o'r cychwyn cyntaf. Mae prosiectau fel hyn yn ceisio cyflwyno lefel sylweddol o gefnogaeth holistaidd i'r cleientiaid, gan gynwys help ymarferol yn aml, help emosiynol ac eiriolaeth. Denfyddir cyrraedd nod tymor-byr i annog y rhiant i ymwneud â'r rhaglen. Fodd bynnag, er mwyn i'r model hwn weithio, mae'n hanfodol cydbwyso perthynas agos o ymddiried rhwng cleientiaid a gweithwyr gyda chanolbwynt rheolaidd ar ddyddiad diweddu'r rhaglen a chynllunio strategaeth adael, rhag i'r cleient ddod i ddibynnu ar unrhyw fecanweithiau cefnogaeth tymor-byr[91].

## 5.4 Model 4: Dwysedd uchel – canolbwynt deuol

Mae prosiectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn yn rhoi cefnogaeth ddwys iawn i wella gweithrediad y teulu yn gyffredinol. Mae prosiectau yn gweithio ar y rhagdyb fod angen ymdrin â chamddefnyddio sylweddau *a* magu plant yn glir o'r dechrau. Gyda'r grŵp cleient y model hwn o weithio eisoes wedi eu nodi'n glir fel rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau[92] sydd yn cydnabod fod arnynt angen cefnogaeth i wella gweithrediad eu teulu, gellir cyflwyno cefnogaeth fwy dwys wedi ei dargedu yn syth, ac y mae modd ymdrin â phwnc camddefnyddio sylweddau o'r cychwyn. Mae prosiectau o'r math hwn yn gweithio gyda'r teulu cyfan (gan gynwys plant) trwy gydol cyfnod yr ymyriad, ac yn ymdrin ag anghenion cefnogaeth holistaidd rhieni, plant a (lle bo hynny'n briodol,) y teulu estynedig. Gyda lefel mor sylweddol o gefnogaeth, yn aml dros gyfnod estynedig o amser, mae angen i brosiectau o'r math hwn – gan weithio'n agos gyda

---

[89] Trwy ganolbwyntio yn bennaf ar fagu plant, gall prosiectau o'r math hwn ddenu ystod ehangach o gleientiaid i ddechrau na'r ymyriadau sydd wedi eu targedu'n fwy. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, gall prosiectau fod yn llai uniongyrchol o ran ymdrin â chamddefnyddio sylweddau – hyd yn oed ymysg y rhieni hynny sy'n sylweddoli fod eu camddefnyddio sylweddau iyn effeithio ar fywyd y teulu.

[90] Mae projectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn yn gweithio gyda phlant, weithiau trwy waith sy'n canoli ar y teulu, ond yn aml trwy waith sy'n canoli ar y plentyn a gyflwynir gan weithiwr arbenigol worker.

[91] Er eu bod yn rhagweld y bydd rhai cleientiaid yn gadael yn gynnar, mae prosiectau sy'n mabwysiadu'r model ymyriad hwn fel arfer yn cyflwyno rhaglen glir gyda therfyn amser penodol, ac yn gweithio tuag at ddwyn rhieni i mewn am y cyfnod cyfan. Mae cleientiaid yn ymwybodol o ddyddiad diweddu'r rhaglen, ac y mae'r prosiectau – gan weithio'n agos gyda gwasanaethau cefnogi a thrin eraill – yn datblygu cynlluniau gadael unigol.

[92] Gyda lleoliad y mathau hyn o brosiectau yn aml ymhell oddi wrth wasanaethau triniaeth am gamddefnyddio sylweddau, gall prosiectau yn aml gyrraedd teuluoedd gyda chryn anghenion cefnogaeth a chamddefnyddio sylweddau na ddeuai fel arall i sylw gwasanaethau camddefnyddio sylweddau traddodiadol.

gwasanaethau triniaeth a chefnogaeth eraill – ddatblygu cynlluniau gadael unigol clir.

# 6. Canfyddiadau proses

## 6.1 Adnabod y grŵp cleient a'u cyrraedd

Oherwydd cyllid isel ac ychydig o staff, cyfyngwyd y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** yn bennaf i fynd at yr unigolion hynny oedd eisoes yn ymwneud â gwasanaeth rhieni'n camddefnyddio sylweddau y prosiect. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, yr oedd cleientiaid fyddai'n mynd at y prosiect yn tueddu i fod yn ceisio triniaeth am gamddefnyddio sylweddau, yn hytrach na chefnogaeth i fagu plant[93]. Ar y llaw arall, yr oedd y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** yn canolbwyntio ar ddarparu gweithdai magu plant fel dull o adnabod a mynd at gamddefnyddwyr sylweddau er mwyn cynnig cefnogaeth fwy dwys iddynt yn nes ymlaen[94]. O ran y ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol,*** arweiniodd ansicrwydd am 'lefel' y cleientiaid y dylent fod yn gweithio gyda hwy i ddechrau at dderbyn cyfeiriadau oedd yn rhy gymhleth – o ran eu camddefnyddio sylweddau a'u hanghenion cefnogaeth ehangach[95]. Wrth i amser fynd rhagddo, fodd bynnag, ac i'r prosiect ddatblygu darlun cliriach o'r grŵp cleient y dylai fod yn gweithio ag ef, gweithredodd broses dargedu gadarnach – yn rhannol trwy ddefnyddio meini prawf cyfeirio wedi eu diffinio yn welll, yn ogystal â chael staff y prosiect i gysylltu â'r sawl oedd yn cyfeirio i gael mwy o fanylion am bob achos unigol[96]. Dechreuodd y ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol*** trwy dderbyn cyfeiriadau yn unig oddi wrth asiantaethau camddefnyddio sylweddau, gan gau allan unrhyw un oedd wedi ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol[97]. Fodd bynnag, trwy eithrio unrhyw un oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, nid oedd y teuluoedd a gyfeiriwyd yn aml yn barod i fynd i'r afael â'u camddefnyddio sylweddau – gan wadu ei fod yn cael effaith ar weddill eu teulu[98]. O ganlyniad, gorfodwyd y prosiect[99] i newid ei grŵp targed i gynnwys y rhai gydag ymwneud *cynnar* â'r Gwasanaethau Cymdeithasol[100].

Nid oedd y prosiectau yn derbyn pob cyfeiriad. O ran y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau***, gwrthodwyd rhai cyfeiriaidau oddi wrth yr heddlu am na chafodd yr heddlu ganiatad cleientiaid posibl ynglŷn â chael eu cyfeirio

---

[93] Yr oedd peth gwrthwynebiad i drafod gallu i fagu plant ac anghenion cefnogaeth– gyda rhieni yn pryderu y gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn rhan o hyn. Tra'n tawelu meddyliau rhieni nad oedd hyn yn wir, efallai i'r prosiect wedyn fod fymryn yn or-ofalus yn ymdrin â materion magu plant (gyda'r gweithwyr ond yn raddol yn adeiladu elfennau o gefnogaeth mwy ffurfiol i fagu plant i'w gwaith achos).

[94] Rhoes y prosiect lawer o waith i mewn i rwydweithio ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, gwelwyd eu gwasanaeth fel grŵp cymdeithasol lle gallai rhieni alw heibio – gan roi mynediad hawdd at gefnogaeth i fagu plant.

[95] Yr oedd teuluoedd o'r fath fel arfer yn ymwneud llawer â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn byw bywydau anhrefnus i'r eithaf oedd yn eu gosod y tu allan i ddehongliadau arferol o 'ymyriad cynnar'. Cymerodd graddfa'r gefnogaeth oedd ei angen gan y cleientiaid hyn fwy o amser o lawer na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol

[96] Caniatodd y cyswllt cynnar hwn i'r prosiect wneud yn siwr fod darpar-gleientiaid yn addas.

[97] Golygodd hyn, ynghyd â'r ffaith fod y prosiect hefyd yn gyfyngedig i ardal ddaearyddol weddol fach, mai dim ond nifer fechan iawn o gyfeiriadau a gafodd y prosiect yn y cyfnodau cynnar.

[98] Erbyn i'r rhieni sylweddoli fod arnynt angen help, yr oeddent yn aml yn ymwneud tipyn â'r Gwasanaethau Cymdeithasol – oedd yn eu rhoi y tu hwnt i gylch gorchwyl gwreiddiol y prosiect.

[99] Oedd yn ceisio glynu'n haearnaidd at gylch gorchwyl y Cynulliad Cenedlaethol am brosiectauPYCRh : trwy geisio atal problemau rhag cronni fyddai'n golygu cyfeirio at wasanaethau haen uwch.

[100] Yn ogystal ag ymdrin ag ardal ddaearyddol ehangach.

neu beidio, a bod staff y prosiect yn teimlo y byddai'r unigolion hyn yn annhebyg o ymwneud heb gael eu symbylu eu hunain. Yn yr un modd, ni fyddai'r ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** yn derbyn cyfeiriadau heb gydsyniad y cleient – gan ddadlau, pe bai cyfeiriadau yn cael eu derbyn ac nad oedd y cleient yn mewn gwirionedd yn barod i ymwneud â'r gefnogaeth, y gallai wneud mwy o ddrwg na dim ymyriad o gwbl[101]. Teimlai'r nail brosiect a'r llall y byddai'n fwy priodol gwneud y cyfeiriadau hyn yn ymwybodol o'r prosiect a'u hannog i ddod at y prosiect ar adeg pan oeddent hwy'n teimlo symbyliad i newid (gweler Wright & Liddle, 2009).

## 6.2 Ymwneud â'r grŵp cleient a gweithio gyda hwy

Cynhaliodd y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** asesiad triage ac anghenion llawn ymhen 10 diwrnod o gyfeirio[102]. Wedi hyn, cynhyrchwyd pecyn gofal a chynllun gweithredu[103]. Yn y cyfarfod wyneb-yn-wyneb cyntaf gyda'r cleientiaid, cynhaliodd y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** asesiad cychwynnol, a rhoi gwybod i'r cleientiaid am amrywiaeth y gefnogaeth y gellid ei gynnig[104]. Yn y cyfarfod cyntaf hwn, cynigiwyd apwyntiadai dilynol a/neu sesiynau unigol cyson. Cychwynnodd y ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** ei ymyriad gydag ymweliad hanner awr cychwynnol i esbonio'r prosiect a'i natur wirfoddol, ac yna, os oedd y cleient yn hapus i fwrw ymlaen, gwnaed apwyntiad am asesiad llawn. Mewn modd tebyg, byddai'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol*** fel rheol yn cychwyn y cyswllt gyda'r cleient trwy alwad ffôn gan reolwr y prosiect yn amlinellu'r hyn yr oedd y prosiect yn gynnig. Os oedd y cleient eisiau mynd ymlaen, byddid wedyn yn ymweld â'r cartref. Yn y cyfarfod cyntaf hwn, sefydlwyd rheolau sylfaenol am ymddygiad a ffyrdd o weithio gyda'r prosiect a chytuno arnynt yn ffurfiol trwy lofnodi contractau.

Nid oedd yr un o'r adnoddau magu plant oedd ar gael i'r prosiectau PYCRh yn ymdrin â chamddefnyddio sylweddau na'i atal. O ganlyniad, yr oedd y prosiectau yn aml yn ei chael yn anodd dod o hyd i raglen oedd fwyaf addas at eu hanghenion (ac anghenion eu darpar-grŵp cleient). Oherwydd hyn, yr oedd y prosiectau naill ai yn methu ateb amcanion PYCRh yn llawn, neu yn addasu rhaglenni oedd yn bod eisoes i amcanion PYCRh[105]. Er enghraifft, canfu'r ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** fod yr hyfforddiant *Parentline Plus* a dderbyniodd eu staff yn anodd i'w gyflwyno gyda'r cleientiaid. O ganlyniad, yr oedd y math o ymyriad a ddarparwyd ganddynt yn y pen draw yn canoli bron yn llwyr ar gamddefnyddio sylweddau a lleihau niwed, gydag unrhyw waith magu plant yn dueddol o gael ei gyflwyno yn ymatebol[106]. Yn wahanol i hyn, dewisodd y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** gwricwlwm presennol *Parents Together* i roi rhaglen graidd y prosiect– yn rhannol oherwydd ei botensial i gael ei gyflwyno'n hyblyg, yn ôl anghenion cefnogaeth pob cleient.

---

[101] Disgrifiodd y prosiect hwn sut, yn eu profiad hwy, y bu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol osod pwysau ar rieni i ymwneud â chefnogaeth magu plant – dan fygythiad symud y plant o'r cartref.
[102] Fel sy'n arferol gyda thriniaeth gyffuriau, cynhaliwyd asesiad risg hefyd.
[103] Defnyddiodd y prosiect 'agwedd ategu cymunedol' – gan ystyried ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol wrth ddatblygu rhaglen i'r cleient.
[104] Os methodd y cleientiaid â dod i'r apwyntiad cyntaf, byddai'r prosiect yn ysgrifennu atynt i wneud apwyntiad newydd. Os na chafwyd ateb wedi ysgrifennu atynt deirgwaith, rhoddwyd diwedd ar y cyfathrebu.
[105] Golygodd llawer o'r addasiadau hyn ragweld ymwneud mewn rhaglen heb fod yn dymor hir, a'i gwneud yn haws cyrraedd at y deunydd.
[106] I rai cleientiaid, yr oedd hyn yn golygu cael eu cyfeirio at gyrsiau magu plant allanol

Defnyddiodd y ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** amrywiadau ar raglen bresennol Dewis 2[107]. Tra bod y ***prosiect dwysedd canolig*** yn ategu hyn trwy ddarparu hefyd gefnogaeth unswydd ar fagu plant a gynlluniwyd gan y prosiect, defnyddiodd y ***prosiect dwysedd uchel*** hefyd therapi ateb oedd yn canoli ar y teulu, gan ddefnyddio graddfa cyrraedd nod i asesu 'llwyddiant y prosiect'.

## 6.3 Gweithio mewn partneriaeth/rhyng-asiantaethol

Yr oedd y gwahanol ddarpariaeth gwasanaeth lleol a threfniadau aml-asiantaethol yn safle pob prosiect PYCRh yn dylanwadu nid yn unig ar ffynonellau cyfeirio posibl ond arweiniodd hefyd at wahanol gyfleoedd am weithio mewn partneriaeth i bob prosiect. Er enghraifft, er bod y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** wedi ei ddatblygu dan ambarel elusen camddefnyddio cyffuriau oedd eisoes yn gweithredu yng Nghymru, yr oedd cryn wahaniaeth o ran seilwaith gwasanaeth a strategol lleol rhwng safle'r ddau brosiect. Ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, er bod yno wasanaethau magu plant, yr oedd prinder o asiantaethau camddefnyddio sylweddau. Felly, canolbwyntiodd y prosiect i ddechrau ar adeiladu llwybrau cyfeirio a sefydlu protocolau gweithio ar y cyd. Ym Merthyr Tudful, fodd bynnag, lle'r oedd llwybrau cyfeirio eisoes yn bod, yr oedd yn haws o lawer sefydlu'r prosiect y tu mewn i'r rhwydwaith bresennol o asiantaethau. I'r ***prosiect dwysedd isel magu plant***, yr oedd y ffaith fod gan y prosiect berthynas waith agos gyda'r mudiadau eraill oedd hefyd yn dod dan ambarel GCADM (gan gynwys Fusion, GAP a DAFS) – a hefyd y ffaith fod y prosiect yn rhannu'r un adeilad â nifer o'r mudiadau hyn – yn ei gwneud yn haws i'r prosiect asio i mewn i'r strwythurau oedd yno eisoes yn fuan ar ôl iddo gychwyn. Serch hynny, rhaid oedd i'r prosiect weithio'n galed i wreiddio ei hun yn y strwythurau lleol a bu'n ymwneud llawer â rhwydweithio, gan roi cyflwyniadau rheolaidd am y prosiect a'r gwasanaethau yr oedd yn eu cynnig[108].

Rhoes rheolwr y ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** bwyslais mawr ar rwydweithio a datblygu cysylltiadau allanol, gan sefydlu dau grŵp yn y Tîm Gwerithredu Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) lleol: un yn strategol a'r llall yn weithredol. Yr oedd y rhain, ynghyd â fforymau eraill camddefnyddio sylweddau, yn rhoi sawl cyfle i'r prosiect roi gwybodaeth i asiantaethau allanol am y prosiect ac yn helpu i gael cyfraniad aml-asiantaethol yn gynnar[109]. Fodd bynnag, ar waethaf ymdrechion y rheolwr, cafodd y ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol*** anawsterau dybryd i ddatblygu perthynas waith ryng-asiantaethol., Yn benodol, oherwydd tensiynau dros gystadlu am adnoddau, yr oedd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau oedd eisoes yn yr ardal yn gyndyn i gychwyn i gyfeirio pobl at y prosiect[110]. Dywedodd y prosiect mai goresgyn y tensiynau hyn a llunio partneriaethau llwyddiannus gyda'r gwasanaethau hyn oedd yr her fwyaf a wynebodd[111].

---

[107] Gweler y disgrifiad o Ddewis 2 yn adran 4.4

[108] Golygodd y rhwydweithio eang ymwneud cadarnhaol â gwasanaethau nad oedd gynt wedi gwneud gwaith aml-asiantaethol.

[109] Cynhyrchodd y prosiect hwn hefyd lythyr newyddion chwe-misol i roi'r newyddion diweddaraf i asiantaethau allanol am eu gwaith a'u datblygiad.

[110] Gwnaed anawsterau'r prosiect yn waeth hefyd oherwydd y ffaith eu bod, trwy lynu'n gaeth at y meini prawf PYCRh a osodwyd gan gomisiynwyr y Cynulliad Cenedlaethol, heb weithio gyda chleientiaid oedd eisoes yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid oedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol lawer o ddiddordeb yn natblygiad cynnar y prosiect. Hefyd, cychwynnodd y prosiect gyda ffin ddaearyddol gymharol fach oedd yn cyfyngu ar ei waith posibl gyda chyrff eraill.

[111] Dros amser, sefydlwyd partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau megis CDAT a WGCADA

## 6.4 Crynodeb

Fel yr amlygwyd yn yr adrannau uchod, mabwysiadodd y prosiectau PYCRh amrywiaeth eang o agweddau yn eu hymdrechion i ymwneud â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau – a rheolwyr agwed dpob prosiect gan amrywiaeth o ffactorau oedd yn benodol i bob ardal, megis y gwasanaethau oedd eisoes yn bod a seilweithiau strategol. Serch hynny, ar waethaf llawer her 'leol'y bu'n rhaid i bob prosiect oresgyn, mae modd nodi nifer o wersi allweddol cyffredinol o ran datblygu a chyflwyno prosiectau sy'n gweithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

- Yr oedd natur drwm gweithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, ynghyd â'r angen am ddealltwriaeth ddofn o bynciau magu plant a chamddefnyddio sylweddau, yn goygu fod ar staff y prosiect angen hyfforddiant dwys. Yr oedd hyn yn gosod cyfyngiadau amser sylweddol ar ddatblygu a chyflwyno'r prosiect (e.e. dechreuodd dau o'r prosiectau PYCRh gymryd cleientiaid chwe mis wedi i'r cyllid gychwyn). Er nad yw amser 'arweiniol' maith yn anghyffredin i brosiectau yn gweithio yn y maes cymhleth hwn, rhaid i'r comisiynwyr gadw'r gostyngiad yn y 'ffenestr ymwneud' a ddaw yn sgil hyn wrth benderfynu ar amserlenni cyllido.
- Hefyd, gall hyd penodol ymyriad prosiect (sef chwe mis yn achos un prosiect PYCRh) olygu fod prosiect yn peidio â chymryd cleientiaid newydd beth amser cyn diwedd y cyfnod cyllido, ac y mae hyn yn torri'r 'ffenestr ymwneud' i lawr fwy fyth'[112]. Eto, rhaid i'r comisiynwyr ystyried wrth benderfynu ar union 'amser cyflwyno ymyriad'.
- Rhaid treulio llawer o amser ac ynni yn datblygu ac yn cynnal perhtynas waith rhwng asiantaethau. Er y gall y graddau y mae'n rhaid i brosiectau lunio cysylltiadau proffesiynol newydd amrywio ar draws safleoedd (gyda rhai prosiectau yn gorfod cychwyn o'r cychwyn, ac eraill yn gallu denfyddio seilweithiau sydd eisoes yn bod), mae datblygu a chynnal perthynas dda rhwng asiantaethau yn galw am lawer o rwydweithio, rhoi cyflwyniadau a gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn oll yn cymryd amser a llawe ro adnoddau. Mae'n golygu, er hynny, y bydd prosiectau gyda llai o gyllid yn brwydro i ddatblygu'r math o berthynas waith rhwng asiantaethau sy'n hanfodol i gyflwyno gwasanaeth yn effeithiol i'r grŵp cleient hwn.
- Dywed llawer o weithwyr prosiect yn y maes hwn fod eu gwaith yn fwyaf llesol gyda rhieni sydd wedi eu symbylu i newid. Ar y llaw arall, gwelir diffyg llwyddiant i ymwneud â chleientiaid nad ydynt yn barod i newid ar yr adeg arbennig honno. Felly, rhaid gwreiddio prosiectau mewn dealltwriaeth o natur ddeinamig a chymhleth yr ymwneud ei hun, a'i hwyluso ymysg cleientiaid yn y grŵp arbennig hwn. Fel y gellid diswgyl, mae prosiectau sy'n cyflwyno ymyriad mwy dwys mewn sefyllfa well o lawer i andabod, ffurfio a chynnal symbyliaid cleientiaid i newid – ac yn y pen draw roi mwy o botensial i'r prosiectau gyflwyno newid parhaol.

---

[112] I'r prosiect PYCRh a gyflwynodd ymyriad chwe mis, parodd diffyg cyllid arall pan ddaeth arian dwy flynedd PYCRh i ben hwy i beidio â chymryd cleientiaid newydd chwe mis cyn diwedd y cyllid PYCRh. O'i gyfuno ag amser arweiniol maith y prosiect, arweiniodd hyn at 'ffenestr ymwneud' o fymryn mwy na 12 mis mewn gwirionedd.

# 7. Canfyddiadau effaith

Mae'r adran a ganlyn yn archwilio sut y cafodd rhaglen PYCRh effaith ar deuluoedd, gan ganolbwyntio ar y canlynol: gweithredu/deinameg y teulu; sgiliau/galluoedd magu plant; lles plant; camddefnyddio sylweddau; manteision eraill i'r cleient; a manteision i'r gymuned yn ehangach[113].

## 7.1 Gweithredu / deinameg y teulu

### *7.1.1 Cadw'r teulu ynghyd*

Efallai mai'r dystiolaeth fwyaf sylfaenol o lwyddiant PYCRh prosiect fyddai na fyddai plant teulu wedi eu cymryd i ofal yr awdurdod lleol na rhywun arall. Fel y gellid disgwyl, roedd y graddau y gallodd prosiect gael effaith ar hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddwysedd cyflwyno prosiect ac a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar weithredu a deinameg teulu. Er enghraifft, fel y dywedodd un fam fu'n ymwneud â'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol***, oni bai am y prosiect, buasai ei phlant wedi bod yn "byw dros bob man". Mae'r dyfniad a ganlyn gan weithiwr asiantaeth allanol fu'n gweithio gyda'r ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** hefyd yn dangos yr effaith a gafodd y prosiect o ran galluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd.

> *Yn sicr maen nhw wedi llwyddo….i leihau nifer y bobl ifanc…. A gymerwyd i ofal. A dyna un o'r prif amcanion [gofalu] bod y teulu yn aros yn unedig fel teulu.*
>
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Er bod llai o dystiolaeth bendant yn awgrymu fod y naill na'r llall o'r prosiectau dwysedd isel wedi llwyddo i wneud hyn[114], gallodd gweithwyr o'r ***prosiect dwysedd isel magu plant*** hefyd amlygu achosion lle gwnaethant effaith ar helpu teuluoedd i aros yn unedig. Er enghraifft, fel y nododd un gweithiwr :

> *Roedd hi [y fam] wedi bod trwy ddadwenwyno ac wedi cael ei rhyddhau, ac fe fu peth anhawster ynghylch ei phlant mewn gofal [o hyd]. [Fodd bynnag], trwy'r gwaith y buom, yn wneud [gyda hi] mae wedi gallu bod ar ymweliadau gyda goruchwyliaeth ac ... mae'r llys wedi bod yn edrych ar bosibilrwydd ymweliadau heb oruchwyliaeth.*
>
> (Gweithiwr prosiect, Prosiect dwysedd isel magu plant)

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio, fel gydag unrhyw archwiliad o newid ymddygiad a chadwyni cyfraniadau gan lawer asiantaeth i ddeinameg teulu, nad yw modd priodoli effeithiau penodol i unrhyw un asiantaeth/ymyriad.

### *7.1.2 Adfer wedi argyfwng*

---

[113] Mae'r adran hon yn adrodd i raddau helaeth am ganfyddiadau o'r cyfweliadau ansoddol gyda staff a chleientiaid PYCRh. Lle bo modd, defnyddir data meintiol i ategu'r canfyddiadau hyn – ond o blith y cynlluniau peilot PYCRh, dim ond prosiect Families Matter oedd yn cofnodi data effaith yn systemaidd.

[114] Yn benodol, y prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau.

Disgrifiodd rhieni a phobl ifanc y newid cadarnhaol cyffredinol yn awyrgylch y teulu ers cymryd rhan yn y cynllun peilot PYCRh – er, eto, bod hyn yn fwy o nodwedd gyda'r, ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** . Yn ogystal â dangos hyn, mae'r dyfyniadau isod hefyd yn amlygu'r modd amlweddog y gwellodd sefyllfaoedd y teuluoedd.

> *Maen nhw [fy mhlant] yn dweud nad wy'n ddrwg fel roeddwn yn arfer bod. ... rwy'n dawelach, yn hapusach, yn fwy siriol. Rwy'n gwneud mwy o bethau gyda nhw. Mae popeth wedi newid er gwell. Hynny yw, dyw pethau ddim yn berffaith o bell ffordd, ond mae wedi newid cymaint er gwell.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

> *Ers i ni ddod ar y prosiect rwy wedi teimlo fod popeth yn dod yn well. Rwy'n teimlo fod y…. prosiect wedi helpu 'nheulu mewn llwyth o ffyrdd.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Yn sylfaen i'r newid cadarnhaol cyffredinol hwn yr oedd ymdeimlad fod ymwneud â phrosiect PYCRh yn symud y teulu allan o gyfnod o argyfwng ac yn ôl tuag at normalrwydd. Mynegwyd yr ymdeimlad hwn o ddychwelyd i 'normal' gan weithwyr proffesiynol ac aelodau teuluoedd – er, unwaith eto, yn fwy o ran y ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** .

> *Roedd yn fwy fel teulu normal , [gyda'r] rhieni yn gwneud eu gwaith, popeth yn fwy cadarnhaol. Pan es i mewn i'r lle yna cyn i PYCRh weithio [gyda'r teulu] roedd yn drychineb llwyr. [Fodd bynnag], o fewn rhai wythnosau i PYCRh roedd dillad gwely ar y gwelyau, y plant yn haws mynd atynt, roedden nhw'n chwarae tu fas.*
>
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

> *Rwy'n dechrau gwneud mwy yn y tŷ ac yn dychwelyd i normal.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Fodd bynnag, y bobl ifanc a fynegodd orau effaith wirioneddol y 'normalrwydd' hwn.

> *Mae jyst yn braf ... [gallu] dod â ffrind adre ... ac mae'r miwsig ymlaen a mam mas yn yr ardd gefn yn paentio ac yn gwneud pethe normal. Chi'n gwybod, wy ddim yn dod adre i neb yn feddw dwll ar y soffa.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

### *7.1.3 Teulu ynghyd a strwythur*

Er i bawb ddisgrifio sut yr oedd modd dod â theuluoedd yn nes at ei gilydd trwy ymwneud â'r prosiectau, yr oedd adroddiadau o'r fath gan rieni a phobl ifanc yn amlycach o'r ***prosiectau dwysedd canolig*** a dwysedd uchel ***canolbwynt deuol***. Yn ganolog i fod, fel y dywedodd un person ifanc oedd yn ymwneud â'r ***prosiect dwysedd canolig***, "fwy gyda'ch gilydd fel teulu", yr oedd cynnydd mewn gweithgareddau lle'r oedd aelodau'r teulu yn gwneud pethau gyda'i gilydd, gyda mwy o ymdeimlad o drefn deuluol sefydlog.

> *Cynt, doedden ni byth yn arfer gwrando arnyn nhw [y plant]. Fe fydden nhw'n dod nôl o'r ysgol, ac yn parablu…a fydden ninne yn dweud ie, ie, ewch i chwarae, ac fe fydden ni'n mynd i'r ystafell wely [i gymryd*

> *heroin]'. Ond nawr rŷn ni'n dod â nhw adre o'r ysgol. … Fe fydda'i yn iste wrth y bwrdd tra bod nhw'n bwyta eu bwyd, a dyna lle maen nhw'n siarad, yn dweud popeth wrtha'i ... ac fe fydda'i yn gwrando arnyn nhw.*
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Fel y gellid disgwyl, yr oedd y plant yn sylweddoli ac yn sylwi ar y trawsnewid cadarnhaol hwn. Fel y dywedodd y person ifanc a ddyfynnir isod:

> *[Cyn PYCRh] doedden ni ddim yn eistedd i lawr i ginio a phethe felna, ond mae'n wych nawr. Rwy wrth fy modd nawr. ... [Cynt] fe fydde hi [mam] yn coginio ar adege dwl achos ei bod hi wedi meddwi, felly fydden i ddim yn dod i mewn i fwyta. ... [Nawr] dyw hi ddim yn meddwi ac mae gyda ni amser penodol i gael bwyd ac amser i ddod i mewn hefyd, ac mae'n well.*
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

### *7.1.4 Gwell cyfathrebu a pherthynas gryfach*

Ochr yn ochr â chael teulu cyfan yn gweithredu'n well, gallodd holl fodelau'r PYCRh gael effaith gadarnhaol ar berthynas rhwng rhiant/plentyn unigol yn y teulu (er, mewn ***prosiectau dwysedd isel***, bod hyn yn cael ei bwysleisio yn bennaf gan y gweithwyr prosiect yn hytrach na'r rhieni). Yn ganolog i'r gwella hwn yn y berthynas mae gwell sgiliau cyfathrebu rhwng rhieni a phlant.

> *Rwy'n meddwl mai un o'r pethe gorau ddaeth mas ohono fe [y prosiect], lle gallwn ni i gyd iste i lawr a siarad â'n gilydd ac esbonio sut ryn ni'n teimlo. ...Roedd hynny'n beth da.*
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Cafwyd esiamplau hefyd lle hwyluswyd gwelliant yn y berthynas *rhwng* y plant yn y teulu (er y daeth hyn yn unig oddi wrth y rhai oedd yn ymwneud â'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol***).

> *Ac un o amcanion [fy mab] oedd dod ymlaen yn well gyda [ei frawd]. Ac fe allech weld y gwahaniaeth wedi iddi hi [gweithiwr y prosiect] weithio gydag e dipyn bach. ... Maen nhw wedi dod ymlaen yn rhyfeddol.*
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

### *7.1.6 Darparu cefnogaeth ymarferol*

Fel y dywedodd y rhiant isod, yr oedd effaith y prosiectau yn ymestyn y tu hwnt i wella perthynas y teulu – i elfennau mwy ymarferol bywyd y teulu. Yn wir, yr oedd y canolbwynt cryf ar faterion ymarferol oedd gan holl brosiectau PYCRh (megis cefnogaeth i dalu biliau a rheoli cyllideb y cartref ) yn allweddol, nid yn unig i gryfhau ymwneud y cleientiaid â'r prosiectau, ond hefyd i hwyluso gwelliannau mewn ymddygiad magu plant a bywyd y teulu.

> *Fe ddywedwn ni mai nhw [gweithwyr y prosiect] yn mynd â mi i fy holl apwyntiadau oedd [o help]. Oherwydd os na fysen i wedi mynd i'r adran dai, fuasen i ddim yn byw yma nawr, fy fysen i mewn hostel neu rywle felly gyda'r plant.*
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

> *Fe gawson ni drefn ar y dyledion. Fe gawson ni'r bachgen bach yn ôl i'r ysgol. Fe roesom drefn ar grant am wisg ysgol iddo achos doedd dim gwisg ganddo. Fe gawsom y ferch i fynd at y deintydd achos yr oedd ei hiechyd deintyddol yn wael. ...Fe gawson ni hi yn ô i'r ysgol gyfun. ... Rydym ni wedi ei gael e [y tad] i fynd at y meddyg fel ei fod wedi cael triniaeth. Mae'r tŷ bellach yn olau ac yn iach a siriol. Mae pethau'n hapusach. Maen nhw [y teulu] yn gweithredu. Mae'n gwneud cyllideb. Mae'n mynd i siopa.*
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

### *7.1.7 Ymdrin â chyd-destun teuluol camddefnyddio sylweddau*

Fodd bynnag, fel y nododd y cynrychiolydd o'r asiantaeth allanol isod (y tro hwn mewn perthynas â'r ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol***), hyd yn oed gydag agwedd holistaidd, ymdrin yn uniongyrchol â'r camddefnyddio sylweddau sydd yn allweddol i ofalu bod y rhiant yn gallu trin cyfrifoldebau'r teulu.

> *Os nad yw mam yn ...ddibynnol ar alcohol, ... yna mae'n llawer mwy galluog i drin ag unrhyw broblem a all godi yn y teulu.*
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Byddai hyn yn awgrymu, heb roi camddefnyddio sylweddau fel rhywbeth canolog i waith y prosiect, na all gwelliannau eraill ehangach yng ngweithredu'r teulu gael eu gwneud. Yn sicr, awgrymodd gweithwyr prosiect yn y ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol,*** ar waethaf eu hagwedd holistaidd, mai'r allwedd i ymdrin ag unrhyw effeithiau a gwelliannau oedd mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau[115].

> *O ran deilliannau i'r plant, bydd pobl sydd yn ymatal neu yn adfer yn dda yn symud gweithrediad y teulu ymlaen yn gynt, ac felly hefyd gyda deilliannau'r plant, na'r rhai sydd yn dal mewn llanast.*
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Wrth gwrs, os yw ymdrin â'r camddefnyddio sylweddau yn allweddol at wella gweithrediad y teulu, mae hyn yn awgrymu y byddai mynd i'r afael â hyn mor fuan ag sydd modd yn llesol. Felly, gellir cael lles arbennig o'r ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol***, gan y dylai eu gallu hwy i ymdrin â materion camddefnyddio sylweddau yn gyflym alluogi mwy o ganolbwyntio ar ddeilliannau i'r teulu a'r plant.

## 7.2 Sgiliau / galluoedd magu plant

### *7.2.1 Newid agweddau at blant a'u magu*

Efallai mai un o'r elfennau pwysicaf o ran effaith y prosiect ar les plant yw newid cadarnhaol yn agweddau rhieni tuag at eu plant - fel bod y rhieni yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau priodol. Gall hyn fod yn sylfaenol i unrhyw newidiadau eraill mewn perthynas â gallu i fagu plant. Er bod tystiolaeth o newid yn agweddau rhieni o du'r rhai oedd yn ymwneud â'r holl brosiectau, pwysleisiwyd yn benodol

[115] Fel y cyfryw, gallodd gweithwyr yn y posiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau ddadlau fod eu gwaith wedi agor y drws i welliannau ym mywyd y teulu, hyd yn oed os na fuont yn ymdrin eu hunain yn uniongyrchol â materion magu plant.

gan aelodau teuluoedd yn y ***prosiectau dwysedd uchel*** a ***dwysedd canolig canolbwynt deuol*** [116].

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, yr oedd y gwelliant mewn agwedd yn ddim mwy na rhieni yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu plant. I rieni yr oedd eu camddefnyddio sylweddau wedi tynnu eu sylw neu droi yn ganolbwynt eu bywyd, gallai hyn fod yn gam pwysig iddynt hwy a'u plant. Ynghyd â rhieni yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu plant yr oedd symudiad tuag at agwedd fwy cadanrhaol at y plentyn. Efallai bod y plentyun gynt yn cael ei weld fel dim ond problem arall i fywyd mewn argyfwng, baich negyddol, neu rwystr anghyfleus i ddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, fel y dengys y dyfyniad isod gan riant, gallai'r prosiectau newid yr agwedd hon.

> *A thrwy [weithwyr PYCRh] yn fy helpu i a [fy merch hynaf], mae wedi fy helpu i i'w gweld yn fwy fel fy merch a phlentyn, yn hytrach na'r bod dynol yma oedd yn mynd ar fy nerfau o hyd.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yn agos gysylltiedig â'r newid hwn yn agwedd y rhieni tuag at eu plant – symud o broblem i flaenoriaeth – oedd y newid mewn agwedd at fagu plant fel swydd a'i gyfrifoldebau cysylltiedig. Dangosir y berthynas rhwng y ddau gan y dyfyniad isod, sy'n disgrifio sut yr oedd teimlad y fam o "ddicter tuag at y plant" wedi mynd ochr yn ochr â'i diffyg ymwneud â hwy a golwg gyfyngedig ar fagu plant.

> *Dwy ddim yn siwr sut y digwyddodd, ond fe gefais fy hun ar y ddiod a ddim yn cyfathrebu [â'm plant] o gwbl. Ac yr oeddwn i'n meddwl fod y ffaith fod ganddynt ddillad glân a bwyd yn eu boliau yn golygu fy mod yn fam dda. Ond [ers i mi fod ar y prosiect] rwyf wedi dysgu fod mwy i fod yn fam.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yr oedd yn ingol fod y bobl ifanc eu hunain yn sylweddoli cymaint oedd y newid agwedd tuag at gyfrifoldebau rhieni.

> *Mae hi [mam] wedi cael cymaint o help gan y bobl yma [yn y prosiect] fel ei bod hi, fel … mae'n gwybod … fod arnom ni ei hangen fwy nawr need her more now.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

### *7.2.2 Gwell gallu i fagu plant*

Yn ychwanegol at newid agweddau rhieni at eu plant ac at fagu plant per se, roed dmodd gweld effaith y cynlluniau peilot PYCRh wrth i rieni ymwneud mwy â'u plant, a dechrau ymwned mwy â'r gwaith. Fodd bynnag, cyn i'r rhieni allu gwneud tasgau beunyddiol gofalu am eu plant, roedd yn rhaid i lawer ddysgu, fel y dywedodd un rhiant oedd yn ymwneud â'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol***, "bod o gwmpas" eu plant. Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio yn rymus y newid emosiynol ac ymarferol mae'r broses hon yn olygu, gyda'r rhiant a ddyfynnir yn gorfod newid o ganolbwyntio arno'i hun a'i "fyd cyffuriau" i ganolbwyntio ar eu blant.

[116] Nodwyd yn unig gan y gweithwyr prosiect yn y prosiectau dwysedd isel.

> *Rwy'n ymwneud mwy â nhw nawr nac a wnes erioed. Rwy yna iddyn nhw 24/7 nawr am fy mod wedi cau fy hun i ffwrdd oddi wrth fyd cyffuriau. [Ac] ie, rwy eisie bod yno [iddyn nhw] yr holl amser. ... Mae fel cyfnewid bod yn gaeth i gyffuriau am fy mhlant am fy mod wedi colli cymaint [ohonynt] a dwi ddim am goli dim mwy.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Cafodd y newid agwedd a chymryd mwy o rôl rhiant ei drosi yn fwy o allu i wneud swyddogaeth magu plant. Nododd y rhai oedd yn ymwneud â phob math o brosiectau y gwahaniaeth wrth i rieni wneud tasgau beunyddiol i'w plant. Fel y dywedod dun rhiant oedd yn ymwneud â'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol***:

> *Rwy'n meddwl y gall y plant weld fod ... mami a dadi yn codi, yn rhoi brecwast i ni, yn gnweud yn siwr ein bod yn daclus yn mynd i'r ysgol ac yn gnweud ein gwallt a phopeth. Cyn hynny, allen ni ddim trafferthu, wel ... allen ni ddim.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yr oedd yn bwysig fod y rhieni nid yn unig yn gweld newid yn y tasgau yr oeddent yn eu gwneud i'w plant, ond hefyd yn y gweithgareddau yr oeddent yn wneud *gyda'u* plant. Yr oeddent yn awr yn fwy tebygol o eistedd i lawr gyda hwy ac ymwneud â hwy fel rhan o waith magu[117]. Sylwodd pawb oedd yn rhan o'r prosiectau hefyd ar gynnydd mewn gweithgareddau oedd yn golygu bod y rhieni yn mynd â'r plant o gwmpas fwy – rhywbeth oedd yn fesur pendant o welliant mewn magu plant[118].

> *Dros y gwyliau [ysgol] , ... fe es i â nhw i lawr [i'r dref]. Fe aethon ... i nofio. Fe aethom a chael cinio. Fe aethon ni i fyny at fy chwaer i'w gweld, a llawer o bethau na fuasen ni [yn y gorffennol] wedi eu gwneud. ... Fell y mae [y prosiect] wedi rhoi'r hwb yna i mi i sylweddoli y galla'i wneud hyn.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Unwaith eto, mae'r symudiad mewn cael rhieni i ymwneud mwy na thasgau magu plant a gwneud mwy gyda'r plant, yn sicr yn cael ei gydnabod gan y plant dan sylw.

> *Er ei bod yn dal i fynd, gweiddi ac ati, dyw hi ddim mor flin, felly, mae [hi] yn mynd â ni allan fwy ac yn gwneud stwff gyda ni ... [sydd yn] beth da, mae wir yn hapus.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

### *7.2.3 Gwell disgyblaeth*

Yn ychwanegol at y prosiectau yn cael effaith ar agweddau rhieni at eu plant, ymwneud mwy â gweithgareddau a magu plant, yr oedd tystiolaeth hefyd o newid yn natur ymwneud rhwng riant a phlant. Mae hyn yn datgelu sut, trwy ymdrin â magu plant, y dechreuodd y prosiectau gael effaith fwy uniongyrchol ar

[117] Fel y nodwyd yn yr adran ar Redeg Teuluoedd, gallai hyn arwain at wneud mwy o weithgareddau gyda'i gilydd, megis prydau bwyd gyda'i gilydd neu helpu plentyn gyda gwaith cartref.
[118] Oherwydd ei fod efallai yn arwydd o fwy o hyder mewn gallu i fagu plant, yn gyhoeddus, am gyfnodau dwys.

y plant[119]. Efallai mai'r ffordd amlycaf y mae gwelliannau mewn perthynas rhwng rhiant a phlant yw o ran trefn ddisgyblu. Fel y nododd y rheolwr ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol*** isod, yr oedd rhieni oedd wedi ymwneud â PYCRh yn gallu canolbwyntio'n well ar ddisgyblu'r plentyn (yn hytrach na rheoli eu hunain), gyda sefyllfaoedd disgyblu wedi canoli ar anghenion y plentyn yn hytrach na'u hanghenion emosiynol eu hunain.

> *Pan maen nhw [y teulu] wedi gwneud tripiau gyda ni, maent wedi cael eu gweld yn cywiro'r plant mewn dull priodol heb fynd â chael ffit o dymer eu hunain.*
>
> (Rheolwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yr oedd yr holl brosiectau PYCRh yn ceisio cefnogi rhieni i osod trefn ddisgyblu fwy cyson – gan osod rheolau a ffiniau i'w plant. Yn y prosiectau oedd yn canoli ar fagu plant, gallai hyn fod wedi bod o ganlyniad i waith oedd yn ymdrin yn benodol â pherthynas y teulu a sgiliau magu plant, ond gallai hyd yn oed waith oedd yn canoli yn unig ar leihau camddefnyddio sylweddau alluogi rhieni i gynnal y fath gysondeb.

> *Mae gennym ni [nawr] lwyth o reolau a maen nhw'n gwybod beth y gallant ac na allant wneud. Cyn hyn, byddent [y plant] yn dweud "Wel os gofynna'i iddi hi eto pan fydd wedi cael diod, fe fydd yn dweud ie". ... Ond nawr "na" yw "na", ... mae'r ffiniau yn aros.*
>
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau)

### *7.2.4 Osgoi gwrthdaro*

Yn agos gysylltiedig â disgyblu, ac yn enwedig rheoli camymddwyn, mae'r modd yr oedd rhieni wedi dysgu ymdopi â sefyllfaoedd gwrthdaro rhyngddynt eu hunain â'u plant. Ar y lefel fwyaf syl;faenol, yn yr holl brosiectau, roedd hyn yn golygu bod y rhaint yn peidio â mynd mor ddig ac yn peidio ag ymateb mewn ffyrdd negyddol i reoli camymddwyn. Soniodd llawer, yn rieni a phlant, fod y rhieni yn gallu ymdopi'n well yn emosiynol â phwysau mewn sefyllfaoedd magu plant. Er enghraifft, fel y dywedodd un person ifanc am ei fam:

> *Wel dyw hi ddim mor snaplyd ag o'r blaen.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Ni ddylid anghofio fod newid agwedd at fagu plant yn fwy na dim ond gwrthweithio pherthynas negyddol rhwng rhieni a phlant oedd wedi datblygu yn ystod yr amser yr oedd y rhiant yn camddefnyddio sylweddau. Efallai y bu'n rhaid i brosiectau hefyd ymdrin ag ymddygiad negyddol sydd â gwreiddiau hanesyddol neu ddiwylliannol dwfn. Fel y disgrifiodd y rhiant hwn oedd yn ymwneud â'r ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol***, yr oedd yn fwy na dim ond newid ei hymddygiad, ond hefyd torri patrymau cenedl;aethau o fagu plant yn negyddol.

> *Rwyf wedi dysgu eistedd yn ôl a dadansoddi a meddwl, "Daliwch funud nawr, beth yw'r ffordd orau o gwmpas hyn?" ... yn hytrach na sgrechen a gweiddi fel y buase mam wedi wneud.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

---

[119] Ymchwilir yn ddyfnach i hyn yn yr adran ar Effeithiau ar Les Plant.

Wrth gwrs, po leiaf o wrthdaro, mwy o reolaeth fydd ar emosiynau'r rhieni, ac y mae ymateb yn fwy priodol hefyd yn golygu nad yw'r plant mewn cymaint o berygl corfforol o unrhyw waethygu ar y sefyllfa. Fel y nododd y rhiant isod:

> *Mae'r [gweithiwr] yn helpu llawer arna'i... fy stopio rhag gwylltio. Ac os yw [fy mab] yn swnian, mae'n dweud "cyhyd â'i fod yn rhywle saff, cer allan a chael ffag, ymdawela, yna tyrd yn ôl, paid â thrio gwneud pan wyt ti dan straen". Felly i mi, mae'n bennaf… yn fy nghadw i ar lefel rydw i eisiau bod ... [lle] nad ydw i'n cymryd fy nicter allan arno [fe]*
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel magu plant)

### *7.2.5 Gwell cyfathrebu*

Gyda phlant hŷn, yr oedd yr allwedd i osgoi gwrthdaro a gwell perthynas rhwng rhiant a phlentyn yn gyffredinol yn golygu yn gyffredinol gynnydd mewn cyfathrebu. Yn wir, yr oedd helpu rhieni i siarad â'u plant yn ymddangos yn faes lle'r oedd yr holl brosiectau yn canolbwyntio i ryw raddau, a lle gwelwyd gwelliannau ym mhob man.

> *Gyda lwc, mae'n mynd yn wirioneddol dda, rydym yn cyfathrebu'n well ac yn siarad yn well. Mae hi [fy merch] yn dod i mewn o'r ysgol ac fe fyddwn yn siarad mwy ac ...mae jyst yn mynd yn wirioneddol dda.*
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau)

Fel yr awgryma'r dyfyniad uchod, mae gallu cyfathrebu â'r plentyn yn golygu, mewn gwirionedd, gwell ymwneud yn y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. Ac ynghyd â mwy o ymwneud daw mwy o gydymdeimlad a dealltwriaeth o safbwynt a sefyllfa'r plentyn.

> *Mae'n fate ro eistedd i lawr a gwrando ar y plant, sut maen nhw'n teimlo, yn enwedig fy merch sy'n mynd trwy holl uffern yr hormonau. Mae'n fater o gymryd yr amser i eistedd - peidio â dadlau â hi, gwrthdaro - dim ond siarad â hi ar lefel. Mae fel petai yn gweithio. ... Yn lle gweiddi arni, ... mae'n fwy o siarad yn dawel, a gofyn yn hytrach na dweud, a cheisio dod i gytundeb.*
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel magu plant)

### *7.2.6 Gwell agosatrwydd rhwng rhieni a phlant*

Efallai nad yw'n syndod, gyda mwy o ddiddordeb yn eu plât, gwell cyfathrebu, llai o wrthdaro a mwy o fwynhad, y byddai tystiolaeth o well cynhesrwydd rhwng rhieni a phlant (ac aelodau eraill y teulu ). Dylid nodi, er bod gwelliannau yn y berthynas rhwng rhieni a phlant wedi eu nodi yn gyffredinol gan y prosiectau oll, fod y trafodaethau am *gynhesrwydd* ac ymddygiad emosiynol tebyg yn gryfaf ac yn cael eu trafod amlaf gan y rhai oedd yn ymwneud â'r ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** Ac unwaith eto, yr oedd hwn yn wahaniaeth oedd yn cael ei gydnabod a'i deimlo'n gryf gan y plant eu hunain.

> *[Ers] iddi [mam] fod ar y prosiect ... mae wedi dod yn berson gwahanol, yn rhywun neisiach, fel rhywun yr hoffech fod gyda hi a phethe felna. ... Fe fydd hi jyst yn dod lan aton ni a rhoi cwtsh a chusan i ni a dweud ei bod yn ein caru ni.* [Emosiynau'r person ifanc yn mynd yn drech nag ef ac mae'n dechrau llefain] *Cyn iddi fod ar y prosiect, alla'i ddim ei chofio hi'n gneud hynna.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

## 7.3 Effaith ar blant / lles plant

### *7.3.1 Hapusrwydd a hyder cyffredinol*

Fel yr awgrymodd yr adrannau blaenorol, yr oedd pobl ifanc mewn teuluoedd o'r holl brosiectau yn gyffredinol yn gadarnhaol am eu deilliannau[120]. Yr oedd rhieni yn disgrifio fel yr oedd eu plant "lawer yn hapusach" ers iddynt (y rhieni) ymwneud â'r prosiectau. Yn ychwanegol at hyn, gyda rhiant yn cael help i ymdrin â'i b/phroblemau camddefnyddio sylweddau, yr oedd y plant yn gallu canolbwyntio mwy arhynt eu hunain, gan fod yn fwy hyderus y byddai eu rhiant yn iawn yn y cyfamser.

> *Mae hi [fy merch now] yn teimlo'n hapusach, ac fe all fynd allan ... heb boeni am beth sy'n digwydd yn y tŷ ac a ydym yn yfed a faint ydyn ni'n yfed, a fyddwn ni'n meddwi. Felly mae wedi newid llawer.*
>
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau)

Yr oedd y plant yn hapusach am fod peth o'r cyfrifoldeb am eu rhieni wedi ei gymryd oddi arnynt. Boed hyn oherwydd bod y rhieni yn awr yn gallu ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw eu hunain neu am fod y prosiectau yn cymryd peth o'r cyfrifoldeb, nid oedd y plant yn gorfod bod yn ofalwyr. Fel y dywedodd person ifanc oedd yn rhan o'r ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** :

> *Roeddwn yn teimlo rhyddhad fod rhywun yno i helpu, ... fod rhywun yn gwybod beth oedd yn digwydd... fod rhywun yno oedd yn gofalu ac yn helpu ac ar eich ochr chi. ... Roedd yn dda.*
>
> (Person ifanc, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

### *7.3.2 Agweddau ac ymddygiad plant*

Yn fwy penodol na hapusrwydd cyffredinol, trafododd gweithwyr proffesiynol a rhieni ar draws yr holl brosiectau welliannau yn ymddygiad y plant. Efallai, fel yr awgryma'r asesiad isod gan riant, fod ymddygiad wedi gwella dim ond am fod mwy o ymwneud gan y rhieni yn golygu nad oedd raid i'r plant gamymddwyn i gael sylw – waeth pa mor negyddol.

> *Dydyn nhw [y plant] ddim yn trio cael fy sylw gymaint ag oedden nhw cynt, oherwydd yn amlwg maen nhw'n cael fy sylw yr holl amser yn awr, ac y maen nhw'n gwybod nad oes raid iddyn nhw ymladd i ddweud "Fe awn ni i fan hyn a gwneud hyn". Maen nhw'n gallu dod lan nawr ac fe fyddwn yn siarad ac yn cael sgwrs gall. A dim ond eistedd i alwr a*

[120] Gellid cynnal cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc yn unig gyda phlant o (1) y prosiect Families Matter a (2) PYCRh Penybont am mai dyma'r unig gynlluniau peilot oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda hwy.

> *lliwio ac ati lle o'r blaen roedden nhw'n ymladd i wneud i ni [fy mharter a minnau] siarad â nhw.*
>
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau)

Yn wir, yr oedd y ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** yn dwyn y bobl ifanc i mewn yn uniongyrchol ac yn canoli ar weithredu'r teulu, fel bod y cynlluniau peilot yn gallu ymdrin â'r mater hwn yn uniongyrchol. Dysgwyd y wers yn fwriadol i'r bobl ifanc na ddylent orfod camymddwyn bellach i gael sylw – yn hytrach fe allent wneud dewis cadarnhaol i ymddwyn yn wahanol.

> *Rwy'n meddwl fod [gweithiwr y prosiect] ... wedi siarad ag e [fy mab]i ddweud, "Wel,fe alli di fod yn wahanol, does dim rhaid i ti actio fel yna".*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

### *7.3.3 Cynhwysiant cymdeithasol a deilliannau addysgol*

Trafododd pawb yn yr holl brosiectau fanteision diriaethol a mwy ymarferol i blant y sawl oedd yn ymwneud â'r prosiectau. Yn ychwanegol at welliannau mewn gweithgareddau beunyddiol (e.e. cael eu codi mewn pryd, coginio prydau, cael dillad, teganau etc.), yr oedd yn ymddangos bod y plant yn cael mwy o sylw gan eu rhieni oedd yn caniatáu eu cynnwys yn llawn fel plant ac yn gymdeithasol. Y maes a drafodwyd amlaf gan weithwyr proffesiynol fel tystiolaeth o 'gynhwysiant wedi ei normaleiddio' oedd integreiddio academaidd. Yr oedd yn ddiddorol sylwi mai prin y crybwyllwyd hyn gan y rhieni a'r plant eu hunain - oedd yn canoli mwy ar ymwneud a gweithredu'r teulu - ond yr oedd yn ddeilliant allweddol i'r prosiectau eu hunain (er yn llai felly efallai i'r ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau***).

> *Rwy'n gwybod ei fod yn swnio'n fach iawn i bobl eraill, ond cael y plant i'r ysgol yn rheolaidd. Rydym wedi mynd o blant â phresenoldeb o 47% i fyny dros 75%.*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

> *Mae'r plant yn mynd i'r ysgol, yn cyrraedd yn gwenu, yn hapus ac yn barod i ddysgu. Gall yr athrawon wneud eu gwaith yn awr.*
>
> (Rheolwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

I'r gweithwyr proffesiynol, yr oedd mynychu'r ysgol a llwyddo yno yn fesur pwysig o effaith y prosiect ar weithredu'r teulu. Fel yr awgryma rheolwr y ***prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol*** isod, mae gweithgaredd o'r fath yn dangos fod y rhiant yn ddigon trefnus i gefnogi'r plentyn, i drefnu ei ddiwrnod, i weithredu yn ariannol ac i ymwneud yn fwy eang.

> *Presenoldeb yn yr ysgol, prydlondeb yn yr ysgol, cymryd rhan mewn teithiau ysgol. Am eu bod mor anhrefnus, chi'n gwybod, byddai'r rhieni, heb olygu, yn colli taliadau am luniau, talu am hyn, talu am y llall. Ac am fod ganddynt weithiwr yn dweud "Dewch ymlaen, mae'n bryd i'r ysgol gael hyn nawr", ... mae'r effaith ar y plant, ym mywyd yr ysgol, wedi bod yn wych.*
>
> (Rheolwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Fodd bynnag, yr oedd yr holl brosiectau, a'r asiantaethau allanol y buont yn gweithio â hwy, yn realistig yn eu disgwyliadau. Yr oeddent yn sylweddoli, yn y

tymor byr o leiaf, na allent ddisgwyl gweld deilliannau addysgol neu eraill mesuradwy sylweddol i blant.

> *Mae ceisio mesur effeithiolrwydd [y prosiect] yn ddarn o waith yn y tymor hwy, on'd yw? Efallai na fyddwch yn gwybod pa effaith gafodd ar fagwraeth un plentyn am flynyddoedd lawer.*
>
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Er hynny, i lawer o'r plant, yr oedd yn ddigon o lwyddiant gwybod fod gwelliannau i sefyllfa eu rhieni, ynghyd â mwy o sylw ganddynt ac ymwneud â hwy, yn golygu eu bod yn fwy diogel yn y cartref nac y buont, ac o ganlyniad yn fwy tebygol o ffynnu yn y tymor hir.

> *Efallai nad dyma'r effaith mwyaf deinamig , ... efallai nad ydych yn gweld pobl yn cael graddau. ... [Ond] yr hyn y gallwch ei weld yw plant nad oes arnynt ofn mynd adref bellach neu sy'n gallu dweud eu dweud pan fyddant gartref.*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

## 7.4 Camddefnyddio sylweddau

O'r pedwar model o weithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau a nodwyd ar ddechrau'r adran hon, y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** oedd yn talu'r mwyaf o sylw uniongyrchol i leihau faint o sylweddau a gymerwyd[121], gyda'r tri model arall o weithio â'r nod o gefnogi rhieni mewn partneriaeth â'r gwasanaethau triniaeth arbenigol camddefnyddio sylweddau oedd yn bod eisoes. Gyda'r rhan fwyaf o rieni yn derbyn ymyriadau gan y prosiectau PYCR a'r gwasanaethau triniaeth ar yr un pryd, yr oedd yn anodd i'r gwerthuso briodoli unrhyw newid mewn camddefnyddio sylweddau gan y rhieni yn benodol i brosiectau PYCRh. Serch hynny, yr oedd effaith ychwanegol y prosiectau yn glir. Er enghraifft, hyd yn oed lle'r oedd rhieni yn ymwneud â'r gwasanaethau triniaeth cyn gweithio gyda'r prosiectau, gweithwyr y prosiect yn aml oedd yn eu hannog a'u symbylu i barhau i weithio gyda'r gwasanaethau hyn.

> *Roeddwn eisiau mynd ar sgript a chael fy hun oddi arno [heroin]. ... [Fodd bynnag] oni bai am [y gweithiwr prosiect PYCRh] ... dwy ddim yn meddwl y buaswn i wedi bod ar subs [subutex] pan oeddwn i, oherwydd gweithiwr y prosiect] wthiodd am y peth, yn y bôn.Aeth [y gweithiwr]â mi i weld y meddyg a phopeth, ... fe wnaeth hi sortio pethau. ... Diolch i Dduw i mi ei gael [subutex] pan wnes i, neu fel arall rwy'n meddwl y buaswn yn farw erbyn hyn.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

> *[Rhoes gweithwyr y prosiect PYCRh] gymaint o gefnogaeth i mi. ... Roedden nhw yno pan oedd gen i f'apwyntiadau i weld cwnselwyr cyffuriau. ... Curo ar y drws, "dere ml;aen, mae'n rhaid i ni dy gymryd yno". Nid fy llusgo i, ...ond fuasen i ddim wedi mynd pa na baen nhw yno... [mewn gwirionedd] pe na baen nhw yno, dwy ddim yn meddwl y buaswn i'n lân nawr ... [oherwydd] rai dyddiau fe fyddai gen i dri neu bedwar apwyntiad mewn un diwnrod, a byddai [gweithiwr y prosiect] yn aros gyda mi drwy'r dydd, jest i wneud yn siwr y buaswn yn mynd i'r apwyntiadau.*

[121] A hyd yn oed wedyn, y flaenoriaeth yn aml oedd lleihau niwed a hybu dulliau mwy diogel o ddefnyddio, yn hytrach nac anelu'n syth i leihau/atal camddefnyddio sylweddau.

(Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yn aml, gall anawsterau seicolegol ac ymddygiadol lleihau/ymatal rhag camddefnyddio sylweddau arwain at amser llawn straen a thrawma i'r unigolyn a'r teulu. Dan amgylchiadau o'r fath, roedd y prosiectau yn rhoi cefnogaeth oedd ei angen yn fawr i'r holl uned deulol.

> *Nid yw rhoi'r gorau i [gamddefnyddio'r] sylwedd o hyd yn ateb i'r anawsterau maen nhw [rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau] yn ei gael adre. A'r rheswm am hynny yw, hyd yn oed os yw rhywun yn wirionedodl lwyddiannus wrth roi'r gorau iddi, dyweder, ... gartref efallai y bydd oedolyn arall sydd wedi cymryd y baich hwnnw, rheoli'r aelwyd, dod i ben ar ba arian bynnag sydd, rheoli'r trais neu'r anhrefn neu'r ymosodiadau neu beth bynnag sydd yn digwydd, ac wedi gwneud hynny yn llwyddiannus iawn o fewn y gallu sydd ganddyn nhw.[A] phan mae rhywun yn dod ato'i hun ac yn dechrau gwneud rhywfaint o dasgau'r tŷ, mae hynny mewn gwirioned dyn taflu'r ddeinameg allan. Ac yna fe gewch un rhiant yn sydyn yn dweud, "Wel, fy nhasg i yw hynna, dwi ddim yn hoffi'r ffaith dy fod ti'n well", … ac felly mewn gwirionedd … yn rhoi rhwystrau i'r broses o wella. ... Ac rwy'n meddwl mai dyna ydym ni wedi llwyddo i'w wneud, mynd i gartref y teulu a dweud, "O ie, edrychwch, mae hwn-a-hwn yn rhoi'r gorau i'r darn yna o beth bynnag ydyw. Nawr beth am newid y deinameg i addasu heb i chi golli grym na hunaniaeth".*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Er bod camddefnyddio sylweddau yn cael ei gydnabod fel cyflwr y mae pobl yn llithro'n ôl iddo dro ar ôl tro, teimlai llawer o'r cleientiaid y byddai llithro'n ôl neu ollwng allan o driniaeth yn difrodi eu perthynas gyda'r gwasanaeth triniaeth am gamddefnyddio sylweddau yr oeddnet yn ymwneud ag ef – byddai hyn wedyn yn eu gwneud yn gyndyn i ddychwelyd i'r gwasanaeth am fwy o help. Yr oedd gweithwyr prosiect PYCRh eto yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth, gan annog cleientiaid i fynd yn ôl eto at driniaeth am gamddefnyddio sylweddau .

> *Os ydyn nhw'n dweud wrtha'i ... "Rwy'n barod i fynd yn ôl," neu "Fe hoffwn fynd ... a chael eu gweld eto a chael meddyginiaeth", ... mae'n gam mawr iddyn nhw. Felly rydym yn eu cefnogi fel nad ydynt mewn gwirionedd ar eu pennau eu hunain. ... [Oherwydd] weithiau mae asiantaethau ... yn diflasu braidd os nad oedd eu DyM[122] yn aml yn methu trafferthu yn y gorffennol. Felly mae'n ceisio ffurfio'r berthynas honno ac "oreit, rwy'n deall mai bryd hynny oedd hynny, ... [ond] rydym ni wedi symud ymlaen, ... mae peth gwaith wedi'i wneud yn y cartref ac ... mae ef neu hi yn barod am y cam nesaf nawr".*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Yr un mor bwysig oedd y ffaith fod y prosiectau mwy dwys oedd yn cynnig gwasanaethau estyn allan yn gallu cynnal ymweliadau cartref aml i gefnogi ac annog cleientiaid i leihau eu their camddefnydd o sylweddau – rhywbeth oedd yn cael ei groesawu yn arbennig yn ystod symtomau cilio poenus a allasai fel arall fod wedi arwain at lithro'n ôl a dychwleyd at gyffuriau stryd.

> *Roeddwn yn eistedd gydag un fam yn arbennig a hithau'n dod oddi ar [heroin] ac yn mynd trwy ei rhaglen methadone . ...rhaid oedd i mi*

[122] 'Dim yn Mynychu' – cleientiaid sy'n methu cadw at eu hapwyntiadau.

> *geisio gwneud llawer o waith i dynnu ei sylw gyda hi [nes iddi gael ei methadone un prynhawn]. … Roeddwn wir yn teimlo drosti ac fe ddywedodd, "Fe allwn i jyst fynd a chael bag [o heroin]. Mae'n rhaid i mi." Mi wnes i gadw ati i ailadrodd ei bod wedi gwneud yn dda, yn wirioneddol dda. "Rwyt ti yma nawr. Rwyt ti wedi ei wneud". ... Fe wnaethon ni gadw ein hunain yn brysur ac yna fe ddywedodd wrtha'i wedyn, "Rwy mor falch," oherwydd pe na bai hi gyda mi, fe ddywedodd, "Fe fuaswn wedi mynd a'i wneud e" [sgorio heroin].*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Hyd yn oed yn yr achosion hynny lle nad oedd gwasanaethau triniaeth eraill yn ymwneud â'r rhieni ar yr un pryd, gallodd y prosiectau PYCR roi'r gefnogaeth angenrheidiol i beri gostyngiadau mewn camddefnyddio sylweddau. Sylwyd ar hyn yn arbennig ymysg camddefnyddwyr alcohol, y mae llai o ddewisiadau triniaeth ar gael iddynt yn aml.

> *Roedwn i'n yfed tua ugain can o Stella y dydd, ac fe es o hynny ...lawr i tlitr a thri chwarter nawr y dydd.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau)

> *Helpodd [y gweithiwr prosiect] fi i leihau [hynny o alcohol yr oeddwn yn gymeryd] am ein bod yn gwneud y siartiau hyn bob wythnos ac fe fydde hi [y gweithiwr] yn rhoi cyngor i mi ar leihau.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

Ymhellach, mae gwasanaethau triniaeth traddodiadol yn aml yn cael eu beirniadu am roi fawr ddim help neu ddim i'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau/alcohol gyda'r gefnogaeth sydd ei angen i gynnal yr ymatal. Unwaith eto, yr oedd prosiectau PYCRh yn gallu llenwi'r bwlch hwn.

> *Doeddwn i ddim wedi bod yn yfed, ond roeddwn yn eistedd yn y tŷ drwy'r dydd, yn meddwl o hyd am yfed. ... [Ond] pan ddes i gysylltiad â [gweithiwr y prosiect] ... roed dhi'n rhoi pethau i mi wneud a llefyd di fynd ac ...roedd yn cymryd fy meddwl oddi ar yr un peth yr oeddwn yn ei grefu.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

## 7.5 Manteision eraill i'r sawl gymerodd ran

### *7.5.1 Hwyluso gweithio aml-asiantaethol*

Yn ychwanegol at yr effeithiau cadarnhaola drafodwyd uchod, cynhyrchodd y prosiectau hefyd amrywiaeth o ddeilliannau cadarnhaol eraill i'r cleientiaid a'u teuluoedd. Er enghraifft, yr oed dlefel y rheolaeth achos pendant a chyd-gordio a gyflwynwyd gan weithwyr prosiect PYCRh – yn enwedig yn y ***prosiectau dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol*** - yn cyfoethogi gwaith ac effaith gwasanaethau eraill.

> *Mae [y gweithiwr PYCRh yn] siarad â'r holl asiantaethau a hynna fel nad ydyn nhw'n gweithio yn y tywyllwch. ... Beth wy'n ddweud yw, mae hi fel y morter, mae'n cadw pawb at ei gilydd. ... Mae [hi] wedi ein cadw ni [fi a'r gwahanol gyrff] at ei gilydd, i fod yn onest.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Trwy godi proffill unigol y cleient gyda gweithwyr allweddol asianatethau eraill, roedd y prosiectau felly yn rhoi mwy o gymhelliad i'r gweithwyr hynny flaenmoriaethu'r achos. Yr oedd y cleient yn ei dro yn gweld hyn fel mwy o sylw gan y gweithwyr allweddol, ac yr oedd cleientiaid yn aml yn dehongli hyn fel y gweithwyr yn 'gofalu' amdanynt – ffactor a allai fod yn bwysig, o gofio'r dystiolaeth am berthynas gref a chadarnhaol yn ategu bwriadau i leihau camddefnyddio sylweddau.

### *7.5.2 Cymorth ymarferol gyda phroblemau*

Gwnaeth rhieni, yn enwedig y rhai oedd yn gweithio gyda'r ***prosiectau***, ***dwysedd canolig*** a ***dwysedd uchel canolbwynt deuol***, lawer o sylwadau am y help yr oeddent wedi ei gael gan weithwyr y prosiect o ran nifer o feysydd ehangach. Er enghraifft, rheoli arian a thalu biliau.

> *Eisteddoff [gweithiwr y prosiect] a mynd trwy fy holl filiau a phopeth gyda mi, ei gael i gyd mewn trefn a gadael i mi ddefnyddio'r ffôns fel y medrwn ffonio a chael y biliau mewn trefn, pethau fel yna, cefnogaeth ymarferol.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol )

> *Fy holl ffurflenni cais am grantiau, grantiau adsefydlu o'r gronfa gymdeithasol, mae hi [y gweithiwr] wedi gwneud i mi.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

Roedd esiamplau hefyd o ddarparu cymorth penodol fyddai yn sicr yn cael effaith yn y tymor hir ar les y plant yn y teuluoedd dan sylw. Fel y cofiodd un rhiant:

> *Mae e [fy mab] ddwy flynedd ar ei hôl hi gyda'i fathemateg a chyda'r arholiadau yn dod i fyny, roedd ei athrawes yn poeni y byddai'n methu. Ac fe ddywedais i wrth [weithiwr y PYCRh] am fy mhryderon, a'r peth nesaf, maen nhw wedi trefnu tiwtor [cartref] i mi. Roeddwn wedi rhyfeddu.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd uchel canolbwynt deuol)

### *7.5.3 Gwelliannau ym marn y cyfranogwyr amdanynt eu hunain*

Boed hynny wedi ei achosi gan gamddefnyddio sylweddau yn awr neu yn y gorffennol, roedd cleientiaid cfel arfe ryn crybwyll lefelau isel o hunan-barch a hyder. Fodd bynnag, trwy adeiladu perthynas gref, gadarnhaol a llawn ymddiried gyda'r rhieni yr oeddent yn gweithio gyda hwy, medrodd staff prosiect PYCRh gymryd camau mawr ymlaen i hybu hyder a hunan-barch y rhieni.

> *Rwy'n fwy pendant. ... Mae'r hyder, mae'n llawer gwell. Hunan-barch, rwy'n dal i adeiladu arno dipyn bach, ond mae gwybod nad oes ots os gwna'i gamgymeriadau ...bod yn hyn a hyn.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

> *Rwy'n berson cryfach o lawer ... ac rwy'n cael, gyda rhai problemau, maen nhw [y prosiect] wedi rhoi mwy o hyder i mi.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd isel magu plant)

Mewn llawer achos, anogodd gweithwyr PYCRh y rhieni i feddwl am eu datblygiad eu hunain a'u dyfodol, gan roi'r symbyliad a'r hyder iddynt ystyried dewisiadau na fuasent wedi eu hystyried o'r blaen.

> *Rwyf eisiau mynd yn ôl i'r coleg a hynna nawr y flwyddyn nesaf. ... Cyn [i mi ddod ar y prosiect] doedd gen i mo'r hyder i'w wneud, ... [ond] nawr mae gen i.*
>
> (Rhiant, Prosiect dwysedd isel magu plant)

Ac mewn achosion eraill, helpodd gweithwyr y prosiect y rhieni i oresgyn unrhyw deimladau o gywilydd am eu camddefnyddio sylweddau.

> *Maen nhw [y gweithwyr] yn gwneud i chi deimlo ...nad oes gyda chi ddau ben, ... nad ydych chi'n wahanol, eich bod fel pawb arall, wir. Ond rydych yn meddwl eich bod yn wahanol am fod gennych broblem [cyffuriau].*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol)

> *Rwy'n fwy hyderus ynof fy hun. ... Doea arna'i ddim cywilydd i fynd i unman nawr. Gallaf fynd allan trwy'r drws a dal fy mhen yn uchel a sylweddoli nad ydw i wedi gwneud dim o'i le.*
>
> (Rhiant, prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau )

## 7.6 Manteision ehangach

Yn anorfod, o gofio'r gwahanol lefelau adnoddau oedd ar gael i bob prosiect ac amrywiaeth yr agweddau a gymerwyd at gyflwyno'r gwahanol fodelau o weithio, cafodd y prosiectau wahanol lefelau o effaith ar yr asiantaethau allanol yn eu hardaloedd lleol. Er enghraifft, ym Merthyr Tudful, roedd y Grŵp Adolygu Cyfeirio Aml-Asiantaethol (MARRG) wedi bod yn ymdrechu i gael cynrychiolaeth o MIDAS[123], a bu cyfraniad y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** yn werthfawr, gan roi gwybodaeth dda a gwybodaeth gefndir fuddiol a alluogodd y MARRG i wneud penderfynaidau mwy effeithiol o lawer. Ac er y teimlai thai nad oedd y ***prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau*** wedi datblygu agwed doedd yn sylweddol wahanol i ymyriadau triniaeth presennol, llwyddodd y prosiect er hynny i godi proffil y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau .

> *Rwy'n meddwl ei fod wedi cael ein hasiantaeth i fforymau a meysydd na fuasem fel arall ynddynt. Unwaith eto mae hynny wedi codi ein proffil ni a'r pynciau. Mae'n debyg ein bod wedi cael mwy o gyfeiriadau hefyd ar gyfer eun [gwasanaeth] cefnogi teuluoedd [Drugaid generaidd] â sgil-effaith. Felly er ei fod yn pwysleisio magu plant ac ati, mae wedi hybu gwasanaethau eraill hefyd.*
>
> (Rheolwr prosiect, prosiect dwysedd isel camddefnyddio sylweddau )

Yn yr un modd, lluniodd y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** berthynas dda gyda nifer o asiantaethau eraill, yn enwedig y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda staff y Gwasanaethau Cymdeithasol lleol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r prosiect[124]. Yr oedd cyfraniad y prosiect yn arbennig o werthfawr, yn enwedig o

[123] 'Motivational Interventions for Drug and Alcohol Misuse in Schizophrenia'.
[124] Bu gweithwyr y prosiect mewn cynadleddau achos, grwpiau craidd, cyfarfodydd trosglwyddo ac adolygiadau Adran 17.

gofio nifer uchel yr achosion yr oedd Tîm Cefnogi Teuluoedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dderbyn[125]. Er i un asiantaeth allanol gwestiynu faint o effaith uniongyrchol a gafodd y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** ar gamddefnyddio sylweddau'r cleientiaid, gwelodd y prosiect ei brif gyfrifoldeb fel ymdrin â'r gallu i fagu plant a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y teulu ymysg gwasanaethau triniaeth – ac yr oedd tystiolaeth o effaith y prosiect yn hyn o beth.

> *Fel asiantaeth, yr ydym wedi codi ymwybyddiaeth fod yna'r dewis arall hwn yn awr i bobl sydd â phroblemau sgiliau magu plant. Felly [i] bobl sy'n dioddef gyda chamddefnyddio sylweddau eu hunain, ond hefyd gyda bywyd teulu, rydym yn awr yn ymwybodol dros ben y gall yr asiantaeth hon gymryd cyfeiriadau.*
>
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd isel magu plant )

Ymhellach, cafwyd adroddiadau am y ***prosiect dwysedd isel magu plant*** yn gallu dwyn i mewn bartneriaid oedd gynt wedi bod yn gweithio 'mewn silo'.

> *Maent wir wedi ymwneud â rhai gwasanaethau na fuasai cynt wedi dwyn neb i mewn o'r tu allan i'w hasiantaeth eu hun, wyddoch chi. Felly rwy'n meddwl ei fod yn wir glod i'r gwaith maen nhw'n wneud, eu bod wedi eu derbyn yn llwyr gan rai o'r asiantaethau statudol yn enwedig, a'u bod hwy yn amlwg yn gweld gwerth y gwaith maen nhw'n wneud i'w cleientiaid.*
>
> (Asiantaeth allanol, prosiect dwysedd isel magu plant )

Yr oedd y ***prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol*** hefyd yn arbennig o lwyddiannus i ddod ag asiantaethau perthnasol at ei gilydd – yn strategol a gweithredol – i ganolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau gan rieni a lles plant. Yr oedd hyn yn galluogi'r prosiect i godi proffil yr agenda *Niwed Cudd* yn yr ardal a, chyda datblygu hyfforddiant camddefnyddio sylweddau i weithwyr proffesiynol, o bosibl gyfoethogi yn sylweddol y modd y byddid yn trin y materion hyn yn y dyfodol.

> *Tydw i ddim yn meddwl cyn [i ni greu ein grŵp strategol] fod yr asiantaethau wedi eistedd o gwmpas y bwrdd yn yr un modd. ... Ond nawr rydym yn cael y bobl o gwmpa sy bwrdd, ac mae'n caniatau trafod agored, a gadael i bobl weld y peth o safbwynt arall. Ac rwy'n meddwl y bydd yr hyfforddiant yn mynd â hynny i lefel uwch oherwydd mae'r hyfforddiant Niwed Cudd yn mynd i fod i'r asiantaethau ddod at ei gilydd ac edrych ar holl bwnc Niwed Cudd.*
>
> (Rheolwr prosiect, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol )

Efallai bod y diffyg gwybodaeth cymharol am gamddefnyddio sylweddau ymysg llawer o weithwyr – rheng flaen a strategol – yn synodod, ond mae gan lawer o bobl gamsyniadau a rhagfarnau am gamddefnyddwyr sylweddau. Er y gallai'r prosiectau PYCRh a wnaeth lawer o rwydweithio rhwng asiantaethau wrthweithio'r wybodaeth anghywir hwn, fel y dengys yr enghraifft isod, dangosodd yr angen dybryd i roi hyfforddiant am gamddefnyddio sylweddau i staff rheng flaen a strategol.

[125] Erbyn diwedd Mehefin 2009, tynnwyd pedwar o blant (cleientiaid PYCRh ) oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

> *Rwy'n meddwl fod [y prosiect] wedi bod o les mawr. ... Galla'i fynd, weithiau, i gynadleddau achos Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid yw'r Cadeiryddion yn gwybod llawer iawn ...am ddefnydd cyffuriau ac alcohol. ... Rŷn ni'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw. ... Dŷn nhw [jyst] ddim yn gwneud [hyfforddiant] cyffuriau ac alcohol. ... [A] hyd yn oed yr heddlu, ... hyd yn oed eich nyrsys ardal a'r ymwelwyr iechyd, does ganddyn nhw ddim hyfforddiant [chwaith] mewn defnydd cyffuriau ac alcohol.*
>
> (Gweithiwr prosiect, prosiect dwysedd canolig canolbwynt deuol )

### 7.7 Crynodeb

Nid yw'n syndod fod gan rieni sy'n camddefnyddio sylweddau yn aml anghenion cefnogaeth eithriadol o uchel a chymhleth. Nid yn unig y mae'n rhaid ymdrin â'r camddefnyddio sylweddau, ond fel arfer mae llawer iawn o ffactorau eraill sydd yn gwaethygu'r her o weithio gyda'r grŵp cleient arbennig hwn. Ar waethaf hyn, fel yr amlygwyd yn yr adrannau blaenorol, mae modd cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar draws llawer maes. Er hynny, o gofio anghenion cefnogaeth cymhleth a dulliau byw anhrefnus llawer o'r rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau – a'r posibilrwydd cryf y byddant yn llithro'n ôl i gamddefnyddio sylweddau – rhaid cofio fod cyrraedd y math o newid cadarnhaol yr adroddir amdano yma yn cymryd amser maith.

## 8. Casgliadau ac oblygiadau polisi

Nod yr ymchwil yn y pen draw oedd: archwilio effeithiolrwydd y rhaglen PYCRh; y rhag-amodau angenrheidiol i weithredu'r cynlluniau peilot yn llwyddiannus; cyd-destun(au) y mae'r gwahanol fodelau yn effeithiol ynddo/ynt; ac argymhelion i werthuso gwasanaethau cymunedol yn effeithiol.

### 8.1 Effeithiolrwydd rhaglen PYCRh

Mae'r gwerthusiad hwn wedi cadarnhau fod y prosiectau PYCRh yn 'gynlluniau peilot' gwirioneddol, yn cyflwyno mathau newydd o ymyriad i'w hardaloedd, yn hytrach na dim ond dyblygu'r ddarpariaeth oedd yn bod eisoes. Fodd bynnag, heb fawr ddim data meintiol ar gael i'r tîm ymchwil, bu'n rhaid i'r gwerthusiad hwn dynnu i raddau helaeth ar ganlyniadau ei waith ansoddol cyntaf. Dangosodd hyn, ar waethaf y cyfnod gweithredu byr (a rhwystrau sylweddol i gael llwybrau cyfeirio, prosesau partneriaeth a threfniadau gweithio ar y cyd yn eu lle), fe lwyddodd y prosiectau i gyrraedd grŵp sylweddol o gleientiaid, ac ar waethaf yr amrywiaeth enfawr o ran cynllunio a gweithredu'r prosiectau, helpodd o leiaf bedwar o bob pump o'r prosiectau i liniaru'r problemau a achoswyd gan gamddefnyddio sylweddau yn y teuluoedd y buont yn gweithio gyda hwy[126] (gweler *Adran 7*).

### 8.2 Y rhag-amodau i weithredu cynlluniau peilot yn llwyddiannus

[126] Ni lwyddodd y prosiect oedd â lleiaf o adnoddau (o ran staff a seilwaith cyflwyno gwasanaeth yn lleol) i roi mynediad i'r tîm gwerthuso at rieni, ffeiliau achos nac asianatethau allanol – felly nid oes fawr ddim tystiolaeth o'i effaith.

Er y dylanwadwyd ar y potensial am effaith ymysg y prosiectau yn anorfod gan y graddau yr oedd llwybrau cyfeirio, prosesau partneriaeth a threfniadau gweithio ar y cyd eisoes yn sefydledig yn yr ardal leol, roed dnifer o agweddau eraill o ddatblygu'r prosiect oedd yn ymddangos yn bwysig o ran gwreidido'r cynlluniau peilot yn y gwasanaeth lleol a'r seilwaith strategol. Yn eu plith yr oedd:

- Cydnabod fod datblygu ffyrdd newydd o weithio yn galw am hyfforddiant dwys sydd angen ei gyflwyno i staff y prosiect *a'r* asiantaethau cyfeirio a rhanddeiliaid eraill (y rhain fel dull o ddatblygu perthynas waith effeithiol gyda chyrff allanol).
- Cydnabod y gall fframweithiau gwasanaeth sy'n bod eisoes gyfyngu ar lwybrau cyfeirio a mynediad at y grŵp cleient posibl, a bod angen mynd ati i wrthweithio hyn.
- Ymrwymo i rwydweithio ac adeialdu llwybrau cyfeirio – ac mewn rhai sefyllfaoedd, gweithredu i oresgyn unrhyw amheuaeth/dicter o du cyrff sy'n 'cystadlu'.
- Lleoli prosiect y tu mewn i 'riant-gorff' sy'n bod eisoes ac sy'n meddu ar ymddiriedaeth a gwerth.

Un o'r anawsterau ddaeth i ran yr holl brosiectau PYCRh i wahanol raddau oedd diffyg diffiniad cyffredin o 'ymyriad cynnar'[127]. Felly, mae angen ystyried yn ofalus ffiniau arfaethedig 'gwasanaethau ataliol cynnar' ar gyfer unrhyw raglen waith yn y dyfodol, a chyfathrebu cyson rhwng comisiynwyr rhaglenni a rheolwyr prosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau yn datblygu ac yn cael eu gweithredu mewn ffordd sydd yn ateb disgwyliadau'r cyllidwyr yn agos.

## 8.3 Gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd y modelau gweithio

Cyn trafod model posibl am weithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau a'u teuluoedd, mae'n werth amlygu nifer o bwyntiau y mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw waith yn y dyfodol gyda'r grŵp cleient arbennig hwn.

- Efallai na fydd ymyriadau sydd â chyfyngiad amser yn hollol addas i rai o'r grŵp cleient hwn. Onid oes gwasanaethau cefnogi eraill a fedr roi cymorth yn y tymor hir i'r rhai ag anawsterau cronig, gall darparu cefnogaeth yn y tymor byr beidio â bod yn llesol o gwbl.
- Mae angen gwaith uniongyrchol gyda phlant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Rhaid cadw cydbwysedd wrth neilltuo cyllid rhwng prosiectau sy'n rhoi gwasanaeth uniongyrchol i rieni a phlant ar y naill law, a chael gwelliannau mewn gweithio rhyng-asiantaethol a rhannu gwybodaeth ar y llall. Efallai y dymuna comisiynwyr fanylu am eu dewis mewn unrhyw ddogfennau tendro.
- Mae lleoli'r math hwn o waith y tu mewn i wasanaethau triniaeth traddodiadol am gamddefnyddio sylweddau yn debygol o arwain at gleientiaid yn derbyn gwasanaethau sydd heb fod yn ymdrin yn uniongyrchol â magu plant. Felly, efallai y buasai yn fwy llwyddiannus lleoli prosiectau y tu mewn i wasanaethau plant a magu generaidd – ond gyda chysylltiadau cryf i mewn i

[127] Yn wir, canfu'r prosiect a geisiodd lynu agosaf at fwriadau gwreiddiol y Cynulliad Cenedlaethol fod hyn yn culhau'r dewisiadau cyfeirio ac yn rhwystro datblygiad y prosiect, ac o'r herwydd y bu'n rhaid llacio.

wasanaethau camddefnyddio sylweddau fel bod modd gwneud gwaith gyda chleientiaid lle bo angen[128].

- Nid yw o gymorth eithrio'r teuluoedd hynny sydd mewn cyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol o 'gefnogaeth ataliol gynnar'. Yn wir, mae llawer o orgyffwrdd posibl rhwng gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau o fath PYCRh a allai roi bod i gyfleoedd ffrwythlon. Er enghraifft, gallai prosiectau wneud y canlynol: gweithio gyda theuluoedd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt, ond sydd islaw'r trothwy i ymyriad Gwasanaethau Cymdeithasol; gwneud nod o anelu at atal ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn teuluoedd, er mwyn denu mwy o rieni i mewn i'r gwasanaeth; a chefnogi teuluoedd sydd wedi gadael ymyriadau Gwasanaethau Cymdeithasol .

Yn niffyg ffynonellau cefnogaeth presennol i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau a'u plant, ymddengys mai agwedd haenog sydd fwyaf addas – gyda graddfa'r gefnogaeth wedi ei deilwrio i lefel y camddefnyddio sylweddau gan y rhieni ac anghenion lles y plant. O ran 'pwyntiau mynediad i gefnogaeth', nodwyd y pedwar pwynt isod:

1) Bydd yn anodd adnabod rhieni y mae eu camddefnyddio sylweddau yn y cyfnod datblygu cynnar, ac efallai mai'r llwybrau amlycaf fydd y sawl sy'n mynd at ddarpariaeth magu plant cyffredinol neu deuluoedd sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle nad yw camddefnyddio sylweddau ond yn bryder bychan. Mae'n debyg y bydd angen codi ymwybyddiaeth y rhieni hyn (iddynt gydnabod effaith eu camddefnyddio sylweddau ar eu plant), yn ogystal â chefnogaeth i weithrediad y teulu a lleihau niwed[129].

2) Bydd ar gamddefnyddwyr sylweddau anhrefnus/dibynnol drwm angen ymyriadau triniaeth penodol i'w helpu i sefydlogi/lleihau. Mae'n debyg yr aiff llawer o amser yr ymyriad ar reoli argyfwng i'r teulu cyfan, ond hefyd, bydd angen cefnogaeth benodol i'r plant (gan gynwys cefnogaeth gofalwyr i blant hŷn).

3) I rieni y mae eu camddefnyddio sylweddau yn sefydlog a/neu yn lleihau, bydd angen cefnogaeth teulu holistaidd. Dylai hyn geisio gwneud y canlynol: parhau i wella lles plant; gwella gweithrediad y teulu; ymdrin ag unrhyw wrthdaro yn y teulu a gododd oherwydd camddefnyddio sylweddau; a sicrhau yr aethpwyd i'r afael ag achosion sylfaenol camddefnyddio sylweddau.

4) I rieni gydag anghenion cefnogaeth cronig/tymor-hir, efallai y bydd angen cefnogaeth gyson i ymatal hyd yn oed pan nad ydynt bellach yn camddefnyddio sylweddau. Byddai hyn yn gyfle effeithiol i asesu lles plant yn gyson.

## 8.4 Prosiectau PYCRh: oblygiadau polisi

[128] Mantais arall yr agwedd hon fyddai y rhoddai fwy o fynediad i rieni na fyddai byth yn mynd at wasanaethau triniaeth.

[129] Er, efallai, mai dyma'r math o agwedd sydd agosaf at gysyniad gwreiddiol y Cynulliad Cenedlaethol o 'ymyriad cynnar', mewn gwirionedd mae'n briodol yn unig ar gyfer cyfran fechan o rieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

Gyda *Niwed Cudd* (ACMD, 2003) yn cynnwys 48 argymhelliad ac yn ymdrin ag amrywiaeth o gylchoedd gorchwyl sefydliadau, ni allesid disgwyl i brosiectau PYCRh gyflawni'r cyfan ohonynt. Gydag ychydig o ganllawiau am ba elfennau i'w blaenoriaethu, cymerodd y pum prosiect oll agweddau gwahanol a chael deilliannau amrywiol. Fodd bynnag, mae profiad y pum prosiect yn awgrymu'r canlynol:

- Nid yw rhaglenni cefnogaeth magu plant generaidd yn addas i waith gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, ac y mae angen eu haddasu i gyflwyno llwyddiant tymor-byr yn syth i annog ymwneud cyson â'r cleient.
- Mae darparu cefnogaeth magu plant nad yw'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn perygl o barhau i anwybyddu anghenion plant am gefnogaeth. Mewn llawer achos, golyga'r difrod a achosir gan weithredu gwael yn y teulu (boed i'w briodoli i gamddefnyddio sylweddau gan y rhieni neu beidio) fod plant angen cefnogaeth yn eu hawl eu hunain i sicrhau yr atebir eu hanghenion lles.
- Anaml y mae mudiadau sy'n gweithio naill ai gyda phlant neu oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau yn archwilio'r effaith y gall camddefnyddio sylweddau gan y rhieni gael ar fywyd y teulu. Erys bwlch gwybodaeth mawr felly o ran pynciau lles plant.
- Mae angen canllawiau o ran y data allweddol i'w gasglu ar gamddefnyddio sylweddau gan rieni a lles plant welfare.
- Nid yw gwasanaethau triniaeth ond yn denu cyfran fechan iawn o gamddefnyddwyr sylweddau, ac nid ydynt felly yn rhoi llwybr digonol i gyflwyno'r agenda *Niwed Cudd*. Gall gweithwyr mewn lleoliad triniaeth naill ai gael; eu gwyro i gefnogaeth 'generaidd' camddefnyddio sylweddau, neu fe allant ohirio ymdrin â materion magu plant nes bod y cleient yn 'barod'. Er i greu'r prosiectau PYCR annog rhai gwasanaethau i ddechrau asesu am gamddefnyddio sylweddau gan y rhieni, gall hyn ddiweddu nawr bod y 'llwybr cyfeirio PYCRh' wedi peidio â bod.
- Nid oes mecanweithiau cefnogaeth arbenigol/llwybrau cyfeirio cyfatebol ar gael i deuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau. Felly, heb y prosiectau PYCRh, gall ymarferwyr gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae rhai staff generaidd a rheng-flaen strategol heb ddigon o wybodaeth am faterion camddefnyddio sylweddau. Mae angen dybryd felly am hyfforddiant camddefnyddio sylweddau (y gellid ei ddatblygu yn benodol i ymdrin â'r agenda *Niwed Cudd*).
- Er y gall darparu cefnogaeth holistaidd generaidd wedi ei deilwrio i deuluoedd esgor ar ddeilliannau cadarnhaol eithriadol i blant a/neu rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau mewn cyfnod cymharol fyr, mae problemau rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau fel arfer yn lluosog a chronig, ac o'r herwydd, mae ymyriad yn y tymor canol i hir yn fwy priodol.
- Nid oes dim/fawr ddim gallu lleol i dalu am brosiectau arbenigol sy'n gweithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau i ymdrin â gweithredu teulu. Er y gellir synied am ddatblygu Cyflwyno Gwasanaeth Integredig i blant fel rhywbeth sy'n gwneud i ffwrdd â'r angen am brosiectau o fath PYCRh, mae lefel y sgiliau arbenigol sydd ei angen ar gyfer gwaith o'r fath, a diffyg adnoddau priodol i'w defnyddio gyda chamddefnyddwyr sylweddau yn her sylweddol i waith o'r fath.
- Dylid cynnal adolygiadau trylwyr o alluoedd strategol a chyflwyno gwasanaeth lleol i gynnal (neu rwystro) datblygu cynlluniau peilot o'r fath yn y tymor hir cyn comisiynu gwasanaethau newydd. Nid yw mynnu bod SDC a

PPPI yn cefnogi pob bid am brosiect ynddo'i hun yn dweud fod y gallu ar gael i ddarparu cyllid yn y tymor hir i gynnal hyd yn oed y cynlluniau peilot mwyaf llwyddiannus.

### 8.5 Crynodeb

Dangosodd y gwerthusiad hwn, er bod ymdrin â chamddefnyddio sylweddau gan rieni yn elfen angenrheidiol o weithredu teulu a lles plant, nid yw ymdrin ag ef ar ei ben ei hun yn debyg o greu gwelliannau mewn gweithredu teuluoedd. Mae rhaglen PYCRh felly wedi nodi'r angen am raglenni arbenigol magu plant i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

Er ei bod yn anodd priodoli unrhyw newid cadarnhaol mewn ymddygiad yn unig i brosiectau PYCRh, fel y dangosodd y gwerthusiad hwn, gallodd y prosiectau peilot PYCRh gael effaith gadarnhaol ar gamddefnyddio sylweddau gan rieni, gweithredu teuluol a lles plant – ac y mae hyn yn fwy amlwg o rai prosiectau peilot PYCRh nac eraill. Yr oedd y prosiectau PYCRh yn llenwi bylchau yn y gefnogaeth mewn darpariaeth draddodiadol, megis: gwaith atal camddefnyddio sylweddau gyda phobl ifanc mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau; gwasanaethau camddefnyddio alcohol ; a chefnogaeth i ymatal. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd y prosiectau mwy dwys yn arbennig o lwyddiannus o ran cyflwyno agwedd a arweiniodd nid yn unig at gael asianatethau allanol i gydweithio yn agosach a mwy cyson gyda'r cleientiaid, ond hefyd mewn mwy o ymwneud gan y cleientiaid yn y gwasanaethau cefnogaeth a thriniaeth prif-ffrwd sydd yn bod eisoes.

# CYFEIRIADAU

Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (2003) *Hidden Harm: Responding to the Needs of Children of Problem Drug Users.* Adroddiad ymchwiliad gan y CYGC. Llundain. Y Swyddfa Gartref.

Barnard, M. (2006) *Drug Addiction and Families.* Llundain, Jessica Kingsley Publishers.

Barnard, M. a McKeganey, N. (2004) 'The impact of parental problem drug use on children: what is the problem and what can be done to help?'. *Addiction*, 99(5): 552-559.

Cleaver, H., Unell, I. ac Aldgate, J. (1999) *Children's Needs – Parenting Capacity.* Adran Iechyd. Llundain: TSO.

Copello, A. ac Orford, J. (2002) 'Addiction and the Family: Is it time for services to take notice of the evidence?'. *Addiction*, 97, 1361-1363.

Copello, A., Velleman, R. a Templeton, L. (2005) 'Family interventions in the treatment of alcohol and drug problems'. *Drug and Alcohol Review*, 24: 369–385.

Copello, A., Templeton, L. a Velleman, R. (2006) 'Family intervention for drug ac alcohol misuse: is there a best practice?'. *Current Opinion in Psychiatry*, 19: 271–276.

Goodman, A. (2007) *Social Work with Drug and Substance Misusers.* Caerwysg: Learning Matters.

Harbin, F., Murphy, M. a Wild, J. (2000) *Substance misuse and childcare: How to understand, assist and intervene when drugs affect parenting*. Lyme Regis: Russell House Publishing.

Howe, D. (2005) *Child Abuse and Neglect.* Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Kroll, B. a Taylor, A. (2003) *Parental Substance Misuse and Child Welfare*. Llundain: Jessica Kingsley

Murphy, M. a Harbin, F. (2006) 'What do we know about children and young people who grow up in substance misusing households?'. Yn F. Harbin ac M. Murphy (gol), *Secret Lives: growing with substance: working with children who live with subtsnace misuse.* Lyme Regis: Russell House Publishing.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adran Iechyd (2001) *Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (2006) *Alcohol ac iechyd yng Nghymru: mater iechyd cyhoeddus o bwys*. Caerdydd: Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru.

Uned Strategaeth (2004) *Alcohol Harm Reduction Strategy for England*. Llundain: Uned Strategaeth.

Taylor, A. a Kroll, B. (2004) 'Working with Parental Substance Misuse: Dilemmas for Practice'*. British Journal of Social Work*, 34(8): 1115-1132.

Tunnard, J. (2002) *Parental Drug Misuse – a review of impact and intervention studies.* Dartington: Research in Practice.

Velleman, R. ac Templeton, L. (2007) 'Understanding and modifying the impact of parents' substance misuse on children. *Advances in Psychiatric Treatment*, 13: 79-89.

Wright, S. a Liddle, M. (2009) *Motivation to change: Does it exist? And does it matter?* Papur a gyflwynwyd i Gynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Troseddeg Brydeinig, Caerdydd.